



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 23 Medi 2014

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Rhagfyr 2014



Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion ynglŷn â chasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.

Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fel eu bod yn cyrraedd erbyn

15 Rhagfyr 2014 fan hwyraf.

Gellir cyflwyno ymatebion:

yn electronig drwy'r ffurflen ar-lein:

<https://secure.wales.gov.uk/consultations/forms/devolved-taxes/?lang=cy>

Drwy eu hanfon ar e-bost at:

FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk

(rhowch 'Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru' yn y blwch testun).

Neu, gallwch eu postio at:

Yr Is-adran Diwygio Ariannol

2il Lawr - Dwyrain

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar:

<http://wales.gov.uk/consultations/cy>

Mae manylion adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) i'r adroddiad cyntaf, a Bil Cymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/funding/financereform/cy>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

David Thurlow

Yr Is-adran Diwygio Ariannol

2il Lawr - Dwyrain

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost:

FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair

	Tudalen
Pennod 1: Cyflwyniad a chefnidir polisi	1
Pennod 2: Sefydlu swyddogaeth gweinyddu trethi, Awdurdod Cyllid Cymru/Welsh Revenue Authority	8
Pennod 3: Pwerau a dyletswyddau	17
Pennod 4: Annog cydymffurfio â threthi	22
Pennod 5: Mynd i'r afael ag osgoi trethi	28
Pennod 6: Datrys anghydfodau treth	33
 Atodiad 1: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad	
 Atodiad 2: Rhestr termau	
 Atodiad 3: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft/ Asesiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb/Preifatrwydd	

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth



Mae Bil Cymru sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd yn pennu pwerau cyllidol newydd i Gymru, gan gynnwys pwerau i fenthycu ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf a phwerau'n ymwneud â threthi. Mae'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd y flwyddyn. Mae datganoli pwerau benthyca a threthu newydd yn gam arwyddocaol ymlaen ac mae'n rhoi cyfle inni i ddatblygu trefniadau ariannu sy'n gweddu'n well i amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn dod â Bil Cynulliad gerbron sy'n nodi'n cynigion ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru. Hwn fydd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth ar drethi i Gymru yn y cyfnod modern, ac wrth ddatblygu ein cynigion rwyf yn ceisio'r amrywiaeth barn ehangaf posibl, gan ddechrau gyda'r Papur Gwyn hwn. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ynglŷn â'r opsiynau allweddol o ran trethi penodol i Gymru i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi y gwanwyn nesaf.

Rwyf wedi nodi f'egwyddorion treth o'r blaen. Bydd y trethi y byddwn ni'n eu datblygu: yn deg i'r busnesau a'r unigion sy'n eu talu; yn syml, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau'r costau cydymffurfio a gweinyddu i'r eithaf; yn cefnogi twf a swyddi, a hynny yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; ac yn darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac yn darparu fframwaith llywodraethu clir a chryf ar gyfer trethi, gan ddechrau drwy sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru/Welsh Revenue Authority. Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru, ond ni fydd o reidrwydd yn ymgymryd â phob agwedd o weinyddu'r trethi ei hun. Rwyf yn ystyried amryw o opsiynau o ran sut y byddai modd ymgymryd â'r swyddogaeth bwysig hon a bydd yr ymatebon i'r ymgynghoriad hwn o gymorth wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn talu unrhyw drethi o'u gwirfodd ac yn sylweddoli bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar arian o'r fath. Byddwn yn ei gwneud cyn hawsed â phosibl talu trethi sydd wedi'u datganoli. Mae yna, fodd bynnag, leiafrif o bobl sy'n ceisio efadu talu trethi – sy'n anghyfreithlon – ac mae rhai'n ceisio osgoi talu trethi. Gall efadu ac osgoi trethi roi mantais annheg i bobl dros y rhai sy'n talu trethi a lleihau'r swm o arian sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn annerbyniol a byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn i atal hyn rhag digwydd. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn ceisio barn am y camau y gellid eu cymryd i hyrwyddo ac annog cydymffurfio, ac i fynd i'r afael â'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Mae'r cam cyntaf hwn yn y broses o ddatganoli trethi i Gymru yn un hanesyddol ac arwyddocaol ac rwyf yn annog pobl a sefydliadau i gynnig eu barn a gweithio gyda ni i helpu i lunio cyfundrefn dreth i Gymru.

Jane Hutt

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Medi 2014

Pennod 1: Cyflwyniad a chefnidir polisi

CYFLWYNIAD

1.1 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) yn datganoli cyfrifoldebau ariannol newydd i Gymru a fydd yn rhoi'r pwerau i Lywodraeth Cymru i fenthycu er mwyn buddsoddi mewn prosiectau seilwaith cyfalaf strategol, ac yn rhoi pwerau trethu iddi.

1.2 Wrth baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau newydd hyn byddwn yn ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid dros y 6-8 mis nesaf. Y Papur Gwyn hwn yw'r ymgynghoriad cyntaf o dri y byddwn yn eu cynnal. Bydd ymgynghoriadau pellach ynglŷn â threthi Cymreig i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn dilyn yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

1.3 O fis Ebrill 2018 bydd angen i Gymru fod â chyfundrefn effeithlon ac effeithiol, lwyr weithredol, i gasglu a rheoli'r ddwy dreth newydd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dod â deddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi gerbron yn gyntaf, yn arbennig er mwyn darparu digon o amser ar ôl cymeradwyo unrhyw ddeddfwriaeth i weithredu a sefydlu cyfundrefn dreth effeithiol. Mae bil yn ymdrin â'r trefniadau hyn i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn haf 2015.

1.4 Mae'r Papur Gwyn hwn yn ystyried yr opsiynau a'r cyfleoedd o ran y polisi ar gasglu a rheoli trethi Cymreig yn y dyfodol a'r ddeddfwriaeth ddilynol. Mae'n dra phosibl y bydd cyfleoedd pellach i ddatganoli a chysoni swyddogaethau casglu trethi yng Nghymru, felly mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw gyfundrefn casglu a rheoli trethi a sefydlir yn awr mor hyblyg a chost-effeithiol â phosibl i ganiatáu ar gyfer posibiliadau'r dyfodol.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai dim ond pan fyddwn yn glir ynglŷn â'r trethi y byddwn yn eu casglu y mae modd deall, ac yn wir datblygu, blaenoriaethau a phrosesau gweithredol ar gyfer cyfundrefn casglu a rheoli trethi. Felly, bydd cyhoeddi dogfennau ymgynghori ar yr opsiynau allweddol o ran trethi Cymreig i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi (LfT) yng ngwanwyn 2015 yn darparu cyd-destun i'r bil cyntaf ar gasglu a rheoli trethi. Mater i Lywodraeth Cymru fydd bwrw ymlaen â deddfwriaeth ar gyfer y trethi disodli hyn mewn pryd i'w gweithredu ym mis Ebrill 2018.

1.6 Wrth ystyried y Papur Gwyn hwn a Phapurau Gwyn i'r dyfodol, mae'n bwysig nodi'r cyd-destun polisi ehangach sydd wedi arwain at ddatganoli pwerau ariannol newydd i Gymru.

CEFNIDIR

1.7 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn annibynnol i ystyried ariannu a chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham) yn 2008. Yn lle fformiwla ariannu

Cymru, dangosodd adroddiadau'r Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009 a 2010, sut y gellid gwneud i drefn amgen, wedi'i seilio ar anghenion, weithio'n ymarferol. Hefyd, roeddent yn awgrymu datganoli rhai pwerau amrywio trethi a benthyca i Gymru.

1.8 Yng ngoleuni argymhellion Comisiwn Holtham ar ariannu tecach, mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi ymrwymo ar y cyd i adolygu lefelau ariannu Cymru fel rhan o bob Adolygiad o Wariant. Os bydd y rhagolygon yn dangos y bydd y lefelau ariannu cymharol yn gostwng, mae'r naill Lywodraeth a'r llall wedi cytuno i drafod opsiynau er mwyn rhoi sylw i'r mater mewn ffordd deg a fforddiadwy.

Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) ac ymateb Llywodraeth y DU

1.9 Ym mis Hydref 2011, sefydlodd Llywodraeth y DU y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Paul Silk, i adolygu trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Roedd adroddiad cyntaf y Comisiwn, a oedd yn ymdrin â datganoli pwerau cyllidol, yn cynnwys 33 argymhelliad ac fe'i cyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 2012. Croesawodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad a galwodd pob plaid yn y Cynulliad am ei weithredu'n llawn.

1.10 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb llawn i adroddiad cyntaf Silk ar 18 Tachwedd 2013 a derbyniodd 29 o'r 31 argymhelliad a oedd wedi'u hanelu at Lywodraeth y DU. Wrth wneud hynny, roedd yn cytuno i becyn o fesurau, yn cynnwys:

- i) datganoli ardrethi annomestig yn llwyr. Ar hyn o bryd, mae derbyniadau ardrethi annomestig yn cyfrannu tuag at ariannu cyllideb DEL¹ Cymru, ond nid ydynt yn effeithio ar y terfyn gwariant llawn. O dan 'ddatganoli llawn', bydd y refeniw a godir yng Nghymru yn effeithio'n uniongyrchol ar y lefel o arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Hefyd, bydd y sefyllfa bolisi yn gliriach a bydd Gweinidogion Cymru'n cael mwy o hyblygrwydd i bennu polisi yn unol ag amgylchiadau Cymru;
- ii) datganoli SDLT ac LfT yn llwyr. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar drethi newydd i Gymru i ddisodli'r trethi presennol o ran treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi;
- iii) y pŵer i fenthyca i fuddsoddi mewn seilwaith. Caiff y pŵer hwn ei gyflwyno ochr yn ochr â datganoli trethi, ac mae'n darparu ffrwd annibynnol o refeniw i gynnal costau benthyca;

¹ DEL Terfyn Gwariant Adrannol – y terfyn cyllideb i Gymru a bennir dros sawl blwyddyn gan Drysorlys EM

- iv) darparu grym benthycu ychwanegol er mwyn rheoli'r llif arian, a chyflwyno hyn ochr yn ochr â datganoli trethi er mwyn ymdopi â natur gyfnewidiol y refeniw o drethi;
- v) y gallu i'r Cynulliad greu trethi newydd, ar yr amod fod Llywodraeth y DU yn cytuno i hynny fesul achos unigol;
- vi) datganoli treth incwm yn rhannol. Mae hyn yn amodol ar i bobl Cymru gymeradwyo hynny mewn refferendwm (byddai rhaid i ddwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad bleidleisio o blaid refferendwm o'r fath cyn y gellid ei gynnal). Pe câi ei ddatganoli (gweler hefyd baragraffau 1.17-1.18), byddai'r pŵer hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i amrywio cyfraddau treth incwm o gymaint â 10c; ac,
- viii) y bwriad i basio deddfwriaeth yn y DU i weithredu'r newidiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Gwyn cyn etholiad cyffredinol 2015.

Bil Cymru

1.11 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Cymru ym mis Mawrth 2014 ac ar hyn o bryd disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd 2014. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer nifer o faterion, ond yn benodol mae'n manylu ar y trefniadau benthycu. Mae'n cynnwys pwerau i fenthycu hyd at derfyn o £500 miliwn ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf a £500 miliwn o refeniw i helpu i ymdopi â'r elfen gyfnewidiol yn y gyllideb yn y tymor byr a fydd yn deillio o ddatganoli trethi.

1.12 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygu'r terfyn benthycu cyfalaf yn ystod Adolygiadau o Wariant. Cyn gweithredu pwerau benthycu newydd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cytuno y caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i phwerau benthycu presennol, mwy cyfyngedig, hi ei hun i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (pe bai'n dymuno gwneud hynny).

1.13 Mae Bil Cymru hefyd yn darparu pwerau i greu trethi datganoledig newydd, fesul achos unigol; pŵer i ddatganoli treth incwm yn rhannol (os bydd pobl Cymru wedi cefnogi hynny mewn refferendwm); fframwaith deddfwriaethol er mwyn i SDLT ac LfT beidio â bod yn weithredol yng Nghymru; a bydd yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer Treth ar Drafodiadau yn Ymwneud â Buddiannau mewn Tir yng Nghymru a Threth Dirlenwi Cymru ac i drefnu i'w casglu a'u rheoli.

1.14 Roedd y Papur Gorchymyn i gyd-fynd â Bil Cymru yn cadarnhau'r amserlen yr oedd Llywodraeth y DU yn ei bwriadu: datganoli ardrethi annomestig yn llwyr erbyn mis Ebrill 2015; datganoli SDLT ac LfT erbyn mis Ebrill 2018; ac mai mater i'r Cynulliad fyddai amseriad unrhyw refferendwm ar ddatganoli treth incwm yn rhannol.

1.15 Mae Bil Cymru'r rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad i ymgymryd â gweithgarwch ategol yn ymwneud â threthi Cymru: yn benodol, y gallu i fynd ati i'w casglu a'u rheoli. Mae hefyd yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) – y corff sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am gasglu a rheoli trethi – i ymgymryd â'r rôl hon dros Gymru, ond nid yw'n ei gwneud yn *ofynnol* i CThEM fod â rôl yma yn y dyfodol.

GOBLYGIADAU BIL CYMRU

1.16 Mae hwn yn ddatblygiad pwysig gan mai dyma'r tro cyntaf y bydd Llywodraeth Cymru wedi cael pwerau trethu. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau hyn yn awr i ymateb i anghenion a blaenoriaethau Cymru. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng datganoli'r pwerau hyn a gallu newydd Llywodraeth Cymru i ariannu buddsoddiadau seilwaith. Mae'r pŵer cyflawni hwn, y bu galw hir amdano, yn dod â lefel ychwanegol o atebolrwydd sy'n cysylltu pwerau codi refeniw yng Nghymru â'r canlyniadau a wireddir wrth wario'r refeniw hwnnw.

1.17 Mae'r cyfle i ddatganoli treth incwm yn rhannol yn amodol ar i bobl Cymru gymeradwyo hynny mewn refferendwm, felly nid dyna sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Serch hynny, dylid nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn fod rhaid cysylltu unrhyw ddatganoli pellach ar dreth incwm â'r angen i ddiwygio grant bloc Cymru ac y dylai'r dull o bennu'r grant gael ei roi ar sail decach a mwy cynaliadwy cyn cyflwyno diwygiad mor sylweddol.

1.18 Mae barn Llywodraeth Cymru yn gyson ag argymhelliad allweddol Comisiwn Silk a ddywedai y dylai trosglwyddo pwerau fod yn amodol ar ddatrys mater ariannu teg mewn ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno arni. Gwnaed cynnydd tuag at ddiwygio'r drefn ariannu ac mae'r ddwy Lywodraeth wedi nodi proses mewn datganiad ar y cyd er mwyn creu trefniant cynaliadwy ar gyfer y cyllid datganoledig i Gymru a chyllid cyhoeddus y DU, trefniant y gall y naill ochr a'r llall dderbyn ei fod yn deg ac yn fforddiadwy². Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud a wnaiff hyn arwain at y diwygio a geisir.

Y cyfyngiadau ar yr hyn y gall y Cynulliad a Gweinidogion Cymru ei wneud gyda phwerau trethu

1.19 Mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu ar drethi i ddisodli SDLT ac LfT – Treth ar Drafodiadau sy'n Ymwneud â Buddiannau mewn Tir (TTiiL) i Gymru a Threth Dirlenwi Cymru (WLfT). Mae hyn yn amlwg yn fframio ac yn cyfyngu ar yr opsiynau polisi o ran trethi disodli.

1.20 Gallai Gweinidogion Cymru ddewis peidio â sefydlu trethi tebyg i SDLT nag LfT. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y DU yn lleihau'r dyraniad grant bloc i Gymru i adlewyrchu'r refeniw posibl o SDLT ac LfT. Byddai peidio

² Diwygio'r drefn ariannu: datganiad cynnydd ar y cyd, Llywodraeth EM a Llywodraeth Cymru, mis Hydref 2012

â datblygu trethi olyn yn cael effaith negyddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a byddai hyn yn effeithio ar allu'r Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gwireddu blaenoriaethau ehangach. Byddai'r cysylltiad ehangach â'r gallu i fenthycu hefyd yn cael ei golli. Mae Tabl 1 yn dangos y refeniw o SDLT ac LfT dros y blynyddoedd diwethaf.


Tabl 1: Refeniw o SDLT ac LfT yng Nghymru, 2006-07 i 2012-13

£m	2006-07	2007-08	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
SDLT*	235	210	115	100	115	125	105
Treth Dirlenwi^	40	38	43	40	48	49	50

Ffynhonnell: *HMRC Stamp Tax Statistics; ^HMRC Disaggregated Tax and NICs Receipts

1.21 Ar lefel y DU, mae cyfraddau'r LfT wedi cynyddu'n ddiweddar fel cymhelliad i gyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi, ac mae llwyddiant y polisi hwn yn debygol o arwain at ostyngiad yn y refeniw Treth Dirlenwi yn y blynyddoedd i ddod. Mae Ffigur 1 yn dangos patrwm cylchol amlwg SDLT gan ei bod wedi'i seilio ar nifer a gwerth trafodiadau eiddo, ac mae cysylltiad agos rhwng y ddwy elfen hyn â pherfformiad yr economi ehangach.

Ffigur 1: Derbyniadau SDLT yng Nghymru, 1999-00 i 2012-13 (£m)



Ffynhonnell: *HMRC Stamp Tax Statistics; ^HMRC Disaggregated Tax and NICs Receipts

Y gofynion ynghlwm wrth bwerau trethu

1.22 Mae'r penderfyniad i gyflwyno trethi disodli hefyd yn golygu bod rhaid i'r Cynulliad ddeddfu i gyflwyno pwerau gweinyddu trethi er mwyn gallu casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru.

1.23 Nid yw datganoli trethu yn cynyddu'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. A chymryd y bydd yr ymdrech drethu yr un fath (hy dim newid arwyddocaol yn y lefel o drethi sy'n cael ei hysgwyddo yng Nghymru), bydd yr incwm o drethi Cymru yn y flwyddyn gyntaf yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad yn nyraniad grant bloc Llywodraeth Cymru a fydd yn cyfateb i'r lefel o reffeniw a ddisgwylir o SDLT ac LfT. Mae trafodaethau ynglŷn â'r fethodoleg i addasu grant bloc Cymru i adlewyrchu datganoli trethi yn parhau.

1.24 Bydd costau'n gysylltiedig â:

- rhoi terfyn ar yr SDLT ac LfT presennol yng Nghymru (mae CThEM yn amcangyfrif y bydd rhoi terfyn ar y trethi hyn yn yr Alban yn costio tua £1miliwn³);
- rhoi trethi newydd Cymru ar waith; a,
- chasglu a rheoli trethi Cymru; bydd y gost yn fwy na chostau gweinyddu'r gyfundrefn SDLT ac LfT yng Nghymru ar hyn o bryd.

1.25 Dywed Papur Gorchymyn Bil Cymru:

"Bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â datganoli SDLT a LfT (net o'r arbedion i Lywodraeth y DU sy'n deillio o'r ffaith na fydd y trethi hynny'n cael eu casglu na'u gweinyddu yng Nghymru mwyach) yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i leihau unrhyw gostau o'r fath."

1.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn gyson y dylid cael trosglwyddiad cyllidebol law yn llaw â datganoli SDLT ac LfT i Gymru i helpu i dalu'r gost o weinyddu'r trethi disodli. Mae trafodaethau ynglŷn â hyn yn mynd rhagddynt.

HYD A LLED YR YMGYNGHORI YNGLŷN Â CHASGLU A RHEOLI TRETHI

1.27 Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu cyfundrefn casglu a rheoli trethi yng Nghymru gael ei gysylltu'n agos â'r gwaith o ddatblygu'r ddwy dreth ddisodli i Gymru. Mae rhai trefniadau casglu a rheoli yn rhai generig i'r ddwy dreth Gymreig (a threthi eraill, o bosibl, yn y dyfodol), ac mae rhai'n benodol i'r trethi unigol ac yn wir yn ddibynnol ar y trefniadau ar gyfer y dreth ei hun

³ Scottish Government Second Annual Report on the Implementation and Operation of Part 3 (Financial Provisions) of the Scotland Act 2012

(er enghraifft, y trefniadau penodol yn ymwneud ag adolygu mewnol ac apelio).

1.28 Bydd angen i'r pwerau, y dyletswyddau a'r prosesau generig yn gysylltiedig â chasglu a rheoli trethi gydblethu'n agos â manylion gweithredu TTiiL a WLfT. Mae'r ymgynghoriad hwn yn manylu cymaint â phosibl ar bwerau a dyletswyddau ac yn rhoi enghreifftiau o sut y gallent weithredu, gan gydnabod na fydd yr holl faterion sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu symud ymlaen yn y ddeddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi. Ceir rhagor o fanylion mewn deddfwriaeth ddilynol yn ymdrin â threthi penodol, neu mewn cynigion polisi gweithredol ehangach, fel y bo'n briodol.

Archwilio opsiynau polisi: cymharu awdurdodau trethu

1.29 Wrth ddatblygu ein polisi ac i'n helpu i osod safonau o ran sut y gellir sefydlu awdurdod trethu a sut y gallai weithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar brofiad CThEM a'r Alban fel cymaryddion, ynghyd ag ystyried yr arferion rhyngwladol gorau yn fwy eang.

1.30 Datganolodd Deddf yr Alban 2012 rai pwerau trethu i'r Alban o fis Ebrill 2015. Mae'r tebygrwydd rhwng Bil Cymru a Deddf yr Alban o ran datganoli trethi llai yn gwneud yr Alban yn gymharydd defnyddiol i Gymru wrth ymdrin â datganoli trethi. Ymysg y gwahaniaethau allweddol mae'r setliad datganoledig yn yr Alban o'i chymharu â Chymru, a'r camau datganoli nesaf posibl.

1.31 Yng Nghymru, mae trethdalwyr a'u hasiantau yn gyffredinol yn deall prosesau a gweithdrefnau CThEM a bydd y trethdalwr yng Nghymru yn dal i dalu treth i CThEM o ran trethi nad ydynt wedi'u datganoli. Hefyd, mae llawer o unigolion a busnesau yn gweithio ar draws ffin Cymru a Lloegr. Mae CThEM yn gymharydd defnyddiol felly i'r diben o ddatblygu dull Cymreig o ymdrin â threthiant, yn arbennig o ran prosesau a gweithdrefnau.

Pennod 2: Sefydlu swyddogaeth gweinyddu trethi, Awdurdod Cyllid Cymru/Welsh Revenue Authority

CYFLWYNIAD

2.1 Ynghyd â datblygu trethi Cymreig, mae angen gwneud trefniadau hefyd i'w casglu a'u rheoli wedyn. Rhaid i'r Cynulliad ddeddfu ar bwerau i allu gwneud hyn a rhaid i'r pwerau gael eu breinio un ai mewn unigolion neu gael eu rhoi i gorff corfforaethol priodol.

2.2 Yr unigolion neu'r corff corfforaethol sydd â'r pwerau fydd â'r cyfrifoldeb terfynol am weithredu'r pwerau yn unol â'u dyletswyddau. Mae'r pwerau'n cynnwys pwerau casglu gwybodaeth ac ymchwilio, cosbau a dirwyon, gorfodaeth sifil a throseddol, ac, yn bwysig, hawliau apelio a chyfiawnder gweinyddol. Ceir manylion pellach ym Mhennod 3.

2.3 Wrth sefydlu swyddogaeth gweinyddu trethi i Gymru, ystyriwyd y canlynol:

- dal gwybodaeth am faterion ariannol trethdalwyr unigol – gwybodaeth a ddylai gael ei diogelu ynddi ei hun;
- gosod meini prawf ar gyfer cosbau ac apelau, ac yn y pen draw y gallu i fynd ag unigolion a busnesau i'r llys am beidio â thalu trethi, ar sail y meini prawf hynny a phenderfyniadau mewnol;
- bod y swyddogaeth hon yn sefyll ar wahân i rannau eraill o'r Llywodraeth sy'n gweinyddu taliadau ac yn casglu arian oddi wrth drethdalwyr; a,
- y defnydd o bwerau i'w gwneud yn ofynnol talu a'i gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth, ac i orfodi archebion talu.

2.4 Am yr holl resymau hyn, dylai'r unigolyn neu'r corff corfforaethol sy'n gwneud y gwaith o gasglu a rheoli trethi sefyll ar wahân yn weithredol oddi wrth Weinidogion Cymru – trefn sy'n gyson â'r arferion rhyngwladol gorau⁴.

2.5 Mae'r swyddogaeth gweinyddu trethi hefyd yn rôl arbenigol. Mae casglu a rheoli trethi yn hynod dechnegol, o ran deall strwythurau trethu deddfwriaethol, ond hefyd o ran rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n fodd i gasglu'r trethi hynny yn effeithlon ac effeithiol, a gweithio ar draws gwahanol drethi i ddeall y potensial i wella'r cyfraddau cydymffurfio a delio ag osgoi.

2.6 Mae Llywodraeth y DU wedi breinio pwerau casglu a rheoli trethu yng Nghomisiynwyr CThEM ac mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu breinio

⁴ Tax Administration 2013: Comparative Information on OECD and Other Advanced and Emerging Economies

pwerau mewn awdurdod trethu arbenigol sydd â chyfansoddiad cyfreithiol (Cyllid yr Alban). Mae'r naill ddull a'r llall yn golygu bod materion gweithredol yn sefyll ar wahân i'r Gweinidogion.

2.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau posibl i Gymru yn cynnwys breinio'r pwerau trethu yng Ngweinidogion Cymru, eu breinio mewn comisiynwyr neu'u breinio mewn corff cyhoeddus sydd â chyfansoddiad cyfreithiol. Mae'r olaf o'r opsiynau hyn yn fodel cyfarwydd, wedi'i brofi'n helaeth a'i ddefnyddio'n eang yng Nghymru o ran gwasanaethau cyhoeddus – fe'i defnyddiwyd yn fwyaf diweddar mewn perthynas â Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff cyrff o'r fath eu sefydlu gyda strwythur Bwrdd, mae ganddynt Brif Weithredwr a chaiff pwerau cyfreithiol eu breinio yn y corff.

2.8 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai pwerau casglu a rheoli trethi gael eu breinio mewn corff cyhoeddus newydd sydd â chyfansoddiad cyfreithiol, a gâi ei alw'n Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae mabwysiadu model o'r fath i weinyddu trethi yn gyson â'r arferion rhyngwladol gorau.

2.9 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ACC sefyll ar wahân yn weithredol oddi wrth Weinidogion Cymru, ond na fydd yn gwbl annibynnol arnynt. Swyddogaeth llywodraeth yw casglu trethi: bydd y refeniw a gesglir yn mynd i Gronfa Gyfunol Cymru i gynnal gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a bydd Gweinidogion Cymru am roi cyfeiriad strategol o ran pa flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i gasglu trethi (a swyddogaethau cysylltiol, er enghraifft, y pwyslais y maent am ei roi ar gydymffurfio ac osgoi). Ni fydd ACC yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif, ac yn wir ei brif rôl fydd gweithredu'r polisiau a'r blaenoriaethau trethu fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru.

2.10 Megis gyda CThEM a Cyllid yr Alban, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ACC fod yn Adran Anweinidogol⁵. Mae'r statws hwn yn gwahanu'r adran yn briodol oddi wrth Weinidogion Cymru, yn enwedig gan y bydd y sefydliad yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad am ei berfformiad. O ystyried ei rôl yn casglu refeniw, mae angen llinellau atebolrwydd clir ac annibyniaeth glir oddi wrth ymwneud gwleidyddol. Bydd ganddo hefyd ei Swyddog Cyfrifo ei hun i oruchwyllo'r ffordd y bydd yn defnyddio'i arian wrth roi polisi trethu ar waith.

2.11 Mae i'r dull hwn y fantais sylweddol hefyd y bydd staff yn weision sifil sy'n cael eu rhwymo gan god y Gwasanaeth Sifil (nid yw staff Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, fel staff Cyfoeth Naturiol Cymru, yn weision sifil). O'u hanfod, trethi bach yw'r trethi disodli (TTiiL a WLfT). O ystyried hyn ynghyd â'r angen i ACC fod yn gorff diwastraff, bydd medru datblygu gwybodaeth sefydliadol a meithrin gallu drwy rannu arbenigedd ar draws Llywodraeth Cymru, CThEM ac ACC – a hynny o bosibl yn cael ei hwyluso drwy secondiadau – yn fuddiol.

Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel Adran Anweinidogol, sy'n atebol i'r Cynulliad?

Dyletswyddau

2.12 Bydd gan ACC gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod trethi Cymru'n cael eu casglu'n effeithlon ac effeithiol a bod y derbyniadau'n cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid ef o reidrwydd, serch hynny, fydd y sefydliad sy'n gwneud y gwaith casglu a rheoli trethi ac mae Llywodraeth Cymru'n cynnig pwerau i'w gwneud yn bosibl dirprwyo'r gwaith o ymgymryd â'r gwasanaethau hyn i un neu ragor o sefydliadau eraill. Caiff manylion am hyd a lled y dirprwyo, a'r ystyriaethau perthnasol, eu nodi'n ddiweddarach yn y bennod hon.

2.13 Wrth ymgymryd â gwaith casglu a rheoli trethi, un ai'n uniongyrchol neu drwy ddirprwyo i sefydliad arall/sefydliadau eraill i weithredu ar ei ran, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ACC gadw at safonau uchel o ran priodoldeb, uniondeb a thryloywder. Rydym yn cynnig sefydlu set graidd o ddyletswyddau i ACC, a fydd yn gyson â'r drefn weithredu yn y DU ar hyn o bryd a'r drefn arfaethedig yn yr Alban ac yn cynnwys:

- casglu'r holl refeniw treth net sy'n ddyladwy, ond gan weithredu â gofal angenrheidiol mewn achosion o galedi eithriadol;
- darparu gwybodaeth, canllawiau a chymorth i helpu trethdalwyr i gydymffurfio;
- ymgynghori/ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid cyn cyflwyno newidiadau trethu arfaethedig;
- ceisio osgoi anghydfod, ond lle ceir anghydfod fod hwnnw'n cael ei ddatrys yn gyflym drwy gonsensws neu ddulliau eraill;
- sefydlu trefniadau (yn cynnwys trefniadau ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill) i ganfod a rhoi gwybod am weithredu troseddol;
- darparu gwybodaeth a chynghor i Lywodraeth Cymru a/neu'r Cynulliad ar faterion gweinyddu a chasglu trethi;
- cyflawni unrhyw rwymedigaethau perthnasol o dan yr UE ac yn rhwngwladol;
- rhoi sylw i ganllawiau ar faterion Gweinidogion; a,
- sefydlu a chynnal safonau proffesiynol uchel.

Cwestiwn 2. Beth yw'ch barn am y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau i Awdurdod Cyllid Cymru?

ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU

2.14 Wrth ystyried opsiynau o ran y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu i ACC mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar y modelau sy'n cael eu defnyddio gan CThEM a'r modelau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer Cyllid yr Alban. Rydym hefyd wedi edrych ar yr arferion gorau o ran sefydlu cyrff cyhoeddus newydd yng Nghymru, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.

Maint y Bwrdd

2.15 Bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng maint Bwrdd ACC a sut mae'r swyddogaethau rheoli a gweinyddu yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, os bydd ACC yn ymgymryd â swyddogaethau ei hun byddai angen mwy o aelodau ar y bwrdd na phe bai'r swyddogaethau'n cael eu dirprwyo'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd angen bwrdd â rhwng 6 a 9 aelod.

Penodi Cadeirydd, Aelodau Bwrdd a Phrif Swyddog Gweithredol

2.16 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd ACC fod yn benodiadau cyhoeddus sy'n cael eu gwneud yn unol ag egwyddorion Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus⁶ ac yn gyson â'r arferion gorau yng Nghymru. Llywodraeth Cymru ddylai benodi'r Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd, a dylai'r Prif Swyddog Gweithredol gael ei benodi gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Atebolrwydd

2.17 Yn yr un modd â'r arfer presennol sydd wedi ennill ei blwyf yn y DU a'r hyn a ragwelir yn yr Alban lle mae'r awdurdodau trethu yn atebol i'w Senedd eu hunain (a'u dinasyddion drwy hynny), bydd ACC yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad.

2.18 Fel rhan o'r trefniadau atebolrwydd, bydd yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth i ACC gyhoeddi manylion ei weithgareddau a'i berfformiad. Mae'r gofynion allweddol arfaethedig yn cynnwys yr angen i ACC gyflwyno dogfennau allweddol i'r Cynulliad:

- adroddiad blynyddol a chyfrifon (ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru);

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life>

- datganiad blynyddol am y trethi a gasglwyd (ar ôl iddo gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru); a,
- chynllun corfforaethol (ar ôl i Weinidogion Cymru gytuno iddo'n gychwynnol).

2.19 Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau blynyddol i nodi amcanion a blaen gyllideb ACC, a bydd hynny yn ei dro yn sail i ddatblygu cynllun corfforaethol y cytunir arno, gyda Llywodraeth Cymru wedyn cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad.

Gwybodaeth trethdalwyr

2.20 Mae ar ACC angen gwybodaeth gyfrinachol gan drethdalwyr i'w alluogi i gyflawni'i swyddogaethau. Wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath mae'n briodol fod trethdalwyr yn disgwyl iddi gael ei chadw'n gyfrinachol a pheidio â chael ei datgelu, oni bai fod amgylchiadau eithriadol sydd wedi'u pennu'n glir. Yn y DU mae'n drosedd i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei dal gan CThEM ac mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai trosedd debyg fodoli yng Nghymru. Bydd hyn yn help i sefydlu ymddiriedaeth rhwng ACC a threthdalwyr Cymru.

Cynnal safonau

2.21 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai'r ffordd o ymdrin â chwynion am ACC gyd-fynd â'r trefniadau sydd wedi ennill eu plwyf o ran cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer CThEM:

- i) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- ii) Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – cwynion am ymchwiliadau; a,
- iii) Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi – yn arolygu gweithredoedd ac anweithiau CThEM wrth atal, canfod, ymchwilio i ac erlyn tramgwyddau troseddol.

Goblygiadau Ariannol

2.22 Y trefniadau a ddewisir yn y pen draw i gasglu a rheoli trethi fydd yn pennu cost sefydlu ACC a'i gynnal wedyn – gweler paragraffau 2.30 i 2.34 ac atodiad 3 (Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft). Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n dadansoddi'r opsiynau sydd ar gael, eu costau a'u goblygiadau ehangach a byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth bellach ar hyn y flwyddyn nesaf.

2.23 Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd costau'n gysylltiedig â'r cyfnod cysgodol cychwynnol ac rydym yn amcangyfrif y bydd y rhain oddeutu £200,000. Byddai hyn yn cynnwys ariannu Prif Swyddog Gweithredol am 6 mis yn 2016-17, ac ariannu Cadeirydd ac aelodau bwrdd rhan-amser ynghyd â Phrif Swyddog Gweithredol am 12 mis llawn yn 2017-18.

Cwestiwn 3. A oes gennych farn bellach ar y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig er sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru?

Siarter Drethdalwyr

2.24 Bydd yn dyngedfennol i ACC sefydlu diwylliant talu trethi positif, i hyrwyddo cydymffurfio ac atal osgoi talu. Dylai geisio datblygu a chynnal perthynas dda â threthdalwyr a'u hasiantau bob amser. I wireddu hyn bydd angen iddo fod yn glir o ran yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan drethdalwyr.

2.25 Mae Siarteri Trethdalwyr sy'n nodi'r berthynas rhwng y trethdalwr a'r awdurdod trethu yn cael eu defnyddio'n eang, er enghraifft gan CThEM, a chânt eu hystyried yn arferion da. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ACC gyhoeddi Siarter Drethdalwyr ac y dylai nodi hawliau'r awdurdod trethu a'r trethdalwr, y naill a'r llall, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran talu trethi.

2.26 Wrth sefydlu naws positif i'r berthynas rhwng y trethdalwr ac ACC, dylai'r Siarter gael ei datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a dylai gael ei hadolygu'n rheolaidd, eto mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gyflwyno gwybodaeth am effeithiolrwydd Siarter y Trethdalwyr fel rhan o'i adroddiad blynyddol.

Cwestiwn 4. Beth yw'ch barn ar y cynigion i sefydlu Siarter Drethdalwyr? Pa gamau sy'n hanfodol i sicrhau bod y siarter yn parhau'n berthnasol ac effeithiol o ran cynnal perthynas adeiladol rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a threthdalwyr?

Casglu trethi

2.27 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ACC gadw'r cyfrifoldeb cyfreithiol terfynol am gasglu trethi datganoledig Cymru yn effeithiol ac effeithlon. Nid yw'n ofyniad mai ACC ei hun fydd y sefydliad sy'n gwneud y casglu a'r rheoli. Byddai'n bosibl dirprwyo i sefydliad arall i ymgymryd â'r gwasanaethau hyn ar ran ACC, neu, yn wir, gallai'r sefydliad ddatblygu'r gallu hwn yn fewnol.

2.28 Mae CThEM a Cyllid yr Alban wedi'u strwythuro mewn ffyrdd gwahanol:

- mae CThEM yn gweithredu ar draws y DU ac yn casglu trethi'n uniongyrchol. Gall gwahanol drethi fod â systemau casglu cwbl annibynnol;
- bydd Cyllid yr Alban yn gyfrifol am gasglu trethi, ond rhagwelir y bydd drwy ddirprwyo yn gwneud trefniadau gyda dau gorff cyhoeddus yn yr Alban i gasglu trethi ar ei ran (Cofrestrau'r Alban o ran y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban (SEPA) o ran Treth Dirlenwi'r Alban).

2.29 Yn y naill a'r llall o'r achosion hyn, mae polisi trethu yn aros gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU/Llywodraeth yr Alban. Y sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am weithredu penderfyniadau polisi a chasglu/rheoli trethi yng nghyd-destun y fframwaith deddfwriaethol a osodir gan y Senedd berthnasol.

2.30 Mae goblygiadau i'r naill a'r llall o'r dulliau gweithredu hyn:

- mae CThEM, sy'n gyfrifol am holl drethi'r DU, wedi datblygu gallu ac arbenigedd sylweddol i gasglu a rheoli trethi, gan ddarparu gwasanaeth arbenigol i bob un o'r trethi gwahanol y mae'n eu rheoli, ynghyd â màs critigol i gynnal dysgu ar draws y trethi. Mae'r sefydliad yn cynnig un pwynt cyswllt i drethdalwyr ar draws yr holl drethi.
- mae Cyllid yr Alban, sydd ag ystod lai o gyfrifoldebau (dim ond trethi i ddisodli SDLT ac LfT, fel Cymru) yn trefnu'i waith o amgylch y cwsmeriaid y mae'n eu gwasanaethu (mae gan SEPA berthynas yn barod â gweithredwyr tirlenwi, ac mae gan Gofrestrau'r Alban gysylltiad eisoes â'r rhai sy'n talu SDLT yn yr Alban drwy'r gofyniad cofrestru tir). Mae hyn yn darparu lefel o effeithlonrwydd i gwsmeriaid.

2.31 Mae nifer o faterion strategol a fydd o bwys wrth ystyried pwy fydd yn casglu ac yn rheoli trethi Cymru. Ym mhob achos, ACC fydd y corff corfforaethol sy'n dal y pwerau cyfreithiol i gasglu a rheoli trethi a bydd yn cadw'r cyfrifoldeb terfynol am roi'r cyfrifoldebau hyn ar waith, ond mae opsiynau o ran pa sefydliad(au) fydd yn gwneud y casglu ar ei ran.

2.32 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried amryw o opsiynau o ran pwy ddylai gasglu a rheoli trethi Cymru, yn cynnwys: ACC (datblygu gallu mewnol) yn ymgymryd â'r swyddogaethau i gyd. Neu, mae sefydliadau eraill a allai wneud y casglu ar ran ACC drwy ddirprwyo: CThEM yn ymgymryd â'r holl swyddogaethau (er y byddai'n ofynnol, o dan Fil Cymru, i unrhyw drefniant lle bo CThEM yn gweinyddu'r naill neu'r llall o'r trethi datganoledig, neu'r ddwy, gael ei gytuno ar y cyd); cyrff cyhoeddus eraill yn chwarae rhan (er enghraifft, cyrff sydd eisoes â chyfrifoldebau a allai weddu'n dda i hyn - Cyfoeth Naturiol

Cymru neu awdurdodau lleol), a hynny o bosibl ar y cyd ag ACC neu CThEM; ac eraill o bosibl. Bydd unrhyw un a phob un o'r opsiynau hyn yn dod â buddion i Gymru.

2.33 Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud dadansoddiad llawn i ystyried y mater hwn, i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael, eu costau a'u goblygiadau ehangach. Yn sgil hyn a'r ymgynghoriadau sydd ar y gweill, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio dod i gytundeb â darparwr yr ydym yn ei ffafrio a gwneud cyhoeddiad cyn cyhoeddi'r bil ar gasglu a rheoli trethi.

2.34 Bydd y penderfyniad hwn yn darparu gwybodaeth atodol ar gyfer cyflwyno Bil Cynulliad ar gasglu a rheoli trethi, ond ni ragwelir y bydd enw darparwr sy'n cael ei ffafrio yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth. Yn hytrach, bydd y ddeddfwriaeth casglu a rheoli trethi yn darparu pŵer i ACC i ddirprwyo ei swyddogaethau i sefydliad arall.

2.35 Mae Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar sicrhau pontio esmwyth a threfnus o drethi'r DU i drethi Cymru ym mis Ebrill 2018 a bydd angen i'r darparwr a ffefrir a fydd â chyfrifoldeb dros gasglu trethi sicrhau hyn. Yn y tymor canolig, wedi'r pontio cychwynnol ac ar ôl i dair i bum mlynedd o weithredu fynd heibio, bydd Llywodraeth Cymru'n edrych eto ar y penderfyniad ynglŷn â phwy sydd yn y sefyllfa orau i gasglu trethi Cymru.

2.36 Y cam cyntaf wrth inni ddadansoddi opsiynau yw datblygu dealltwriaeth lawn o'r prosesau busnes a'r gofynion gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn casglu a rheoli SDLT ac LfT. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ddadansoddi ble mae cyfleoedd i wneud y prosesau a'r gweithdrefnau presennol yn fwy effeithlon ac effeithiol, ac yn fwy addas i anghenion a blaenoriaethau Cymru. Bydd dealltwriaeth glir o hyn yn sail i drafodaethau gyda darparwyr posibl, ac yn help inni ddatblygu amcangyfrifon cost.

2.37 Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cadw costau mor isel â phosibl wrth ddarparu dull effeithlon ac effeithiol o gasglu a rheoli trethi Cymru. Fodd bynnag, mae amryw o ffactorau'n dylanwadu ar gostau ac mae angen ystyried y rhain wrth adolygu'r opsiynau casglu a rheoli. Er enghraifft:

- i) un sefydliad yn hytrach na nifer o sefydliadau yn gwneud y casglu – mwy o ddarbodion maint;
- ii) trefn genedlaethol, gyson, i ymdrin â chasglu a rheoli trethi yn hytrach na threfn leol sy'n amrywio;
- iii) un ffordd safonol syml o ymdrin â threthi yn hytrach na threfn a newidynnau ynddi (gostyngiadau treth) sy'n cael ei phennu gan wahanol amgylchiadau – cymhlethdodau yn ychwanegu cost, ond yn sicrhau elfennau diogelu;
- iv) mabwysiadu strwythur trethu presennol y DU yn hytrach na datblygu ymateb Cymreig i flaenoriaethau;

- v) y math o system a fabwysiedir ar gyfer talu a phrosesu trethi – ar ôl buddsoddiad cychwynnol, gall prosesu a thalu ar-lein fod yn rhatach i'w weinyddu yn gyffredinol na system wedi'i seilio ar bapur a/neu arian parod.

Cwestiwn 5. Beth yn eich barn chi yw'r ystyriaethau pwysicaf wrth benderfynu sut i ymdrin â chasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, a pham? (Wrth ateb, cofiwch ystyried y ffactorau a nodwyd ym mharagraff 2.37, ond tynnwch sylw hefyd at unrhyw ffactorau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys, sydd yn eich barn chi yn bwysig.)

Cwestiwn 6. O ystyried eich ateb i gwestiwn 5, pa sefydliad(au) ddylai gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn eich barn chi, a pham?

Pennod 3: Pwerau a dyletswyddau

CYFLWYNIAD

3.1 Caiff Awdurdod Cyllid Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol a bydd pwerau i gasglu a rheoli trethi yn cael eu breinio ynddo, yn barod iddo ymgymryd â'r swyddogaeth statudol o fis Ebrill 2018.

3.2 Ein hagwedd ni tuag at bwerau a swyddogaethau yw y bydd y trefniadau yng Nghymru yr un fath ag egwyddorion a phrosesau gweithredol cyfredol y DU lle nad oes rheswm polisi i wyro oddi wrth ddeddfwriaeth gweinyddu trethi'r DU (er enghraifft am resymau effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd neu i ganolbwyntio ar anghenion Cymru). Bydd hyn yn darparu cysondeb gweithredol i fusnes trawsffiniol.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig deddfu i ddarparu pwerau priodol i ACC i'w alluogi i gyflawni'i swyddogaethau. Wrth ystyried pwerau o'r fath, caiff blaenoriaeth ei rhoi i ofynion y ddwy dreth ddisodli newydd sy'n cael eu datblygu ar gyfer Cymru, a bydd y cyfle a grëir gan bwerau i Lywodraeth Cymru ddatblygu trethi newydd hefyd yn cael ei ystyried. Mae rhai trefniadau casglu a rheoli yn rhai generig i'r naill a'r llall o'r ddwy dreth Gymreig sydd i gael eu sefydlu, ac mae rhai'n benodol i'r trethi unigol a byddant yn ddibynnol ar y trefniadau ar gyfer y dreth ei hun.

3.4 Bydd y bil ar gasglu a rheoli trethi yn darparu llwyfan i weinyddu trethi Cymru, a bydd y trefniadau penodol yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriadau a'r biliau penodol a fydd yn ymdrin â TTiiL a WLfT yn unigol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu cymaint o fanylion â phosibl ynglŷn â phwerau a dyletswyddau ac yn rhoi enghreifftiau o sut y gallent weithredu. Fel y nodwyd eisoes, ni fydd yr holl faterion sy'n cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu symud ymlaen yn y ddeddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi.

3.5 Bydd angen i'r pwerau, a'r defnydd ohonynt yn benodol, fod yn gyson ag egwyddorion trethu Llywodraeth Cymru fel y mae wedi'u datgan:

Symlrwydd – bod yn syml, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau'r costau cydymffurfio a gweinyddu i'r eithaf

Lle mae'n bosibl, bydd y pwerau yn gyson ar draws y trethi sy'n cael eu gweinyddu gan ACC, gan osgoi'r angen a'r gost felly o'u nodi ar gyfer pob treth ddatganoledig a gwneud y system drethu'n syml a hawdd ei deall.

Darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, gan ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid ynglŷn â newidiadau

Lle caiff rhwymedigaethau eu rhoi ar drethdalwyr, cânt eu nodi'n glir er mwyn rhoi sicrwydd. Bydd cael eglurder a sicrwydd o fudd i ACC a'r

trethdalwr drwy osgoi ansicrwydd ac anghydfodau a allai fod yn gostus.

Tegwch – bod yn deg i'r busnesau a'r unigion sy'n talu trethi

Dylai'r defnydd o bŵer fod yn gymesur ac yn ddarostyngedig i reolau a therfynau clir, yn arbennig o safbwynt y pwerau hynny a allai fod yn fwy ymwithiol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl mai ar achlysuron prin y byddai pwerau fel mynediad i safle busnes, gwyliadwriaeth a phwerau arestio yn cael eu defnyddio, a phan gânt eu defnyddio fod yr amgylchiadau'n glir a bod mesurau diogelu a chymeradwyaeth briodol wedi'u sefydlu.

Cefnogi twf a swyddi, a hynny yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael â thlodi

Ni ddylai pwerau, a'r defnydd ohonynt, roi baich amhriodol ar drethdalwyr na thanseilio'u hawliau.

Pwerau sy'n rhoi rhwymedigaethau ar drethdalwyr

3.6 Er mwyn i system drethu fod yn effeithiol rhaid i'r trethdalwyr chwarae eu rhan. Mae trefniadau trethu felly'n rhoi rhwymedigaethau ar drethdalwyr, ond wrth bennu'r rhain mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cydbwysu gan hawliau trethdalwyr.

3.7 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig deddfu ar rwymedigaethau trethdalwyr, a'n nod yw sefydlu pwerau sy'n adlewyrchu rhwymedigaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae pum rhwymedigaeth allweddol, a manylir arnynt isod:

Dylai trethdalwyr:

- i) orfod hysbysu ACC (neu gorff dirprwyedig yn gweithio ar ran ACC) os ydynt yn atebol i dalu treth ddatganoledig;
- ii) hunanasesu eu treth;
- iii) talu unrhyw drethi dyladwy o fewn unrhyw gyfnod penodedig;
- iv) bod â chofnodion treth digon manwl i allu darparu ffurflen dreth gywir a chaniatáu i ACC wirio ei bod yn gywir, lle mae'n briodol; a,
- v) cadw cofnodion yn ymwneud â threth ar ffurf hygyrch ac am gyfnod gofynnol penodedig o amser.

Cwestiwn 7. A ydy'r rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr yn briodol? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu hystyried?

Pwerau i fynnu gwybodaeth a dogfennau gan drethdalwyr

3.8 Bydd angen i ACC allu casglu gwybodaeth fel bod modd ei defnyddio i gadarnhau cywirdeb ffurflenni trethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig mabwysiadu pwerau tebyg i'r rhai sydd mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer CThEM.

Gwybodaeth a dogfennau gan y trethdalwr: Dylai fod gan ACC y pŵer i fynnu gwybodaeth a dogfennau am gofnodion treth y trethdalwr, neu gopiâu ohonynt. Byddai hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r rhwymedigaeth ar drethdalwyr i fod â chofnodion treth ac i'w cadw.

Gwybodaeth a dogfennau gan drydydd partïon: Efallai y bydd angen i ACC gael gweld gwybodaeth sydd yn ei farn ef yn wybodaeth berthnasol ar ffurflen dreth sy'n cael ei dal gan drydydd parti, hy asiant. O dan yr amgylchiadau hyn mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai fod gan ACC y pŵer i fynnu gwybodaeth o gofnodion treth trethdalwyr sy'n cael eu dal gan drydydd partïon, neu i fynnu copiâu ohonynt.

Pwerau arolygu

3.9 Bydd dilysu'r dreth sy'n ddyladwy yn gyflym yn darparu sicrwydd i drethdalwyr ac yn lleihau oedi a chostau gweinyddol i'r trethdalwr ac i ACC. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai fod gan ACC bwerau arolygu cymharol eang, yn gyson â'r hyn sydd ar gael i CThEM. Byddai a wnelo'r pwerau hyn ag arolygu cofnodion, safleoedd a nwyddau a deunyddiau, gan gynnwys cymryd samplau:

Cofnodion: bydd angen i ACC allu arolygu cofnodion y trethdalwr, ac o bosibl gofnodion ei asiantau.

Safleoedd: cred Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i ACC allu arolygu safle busnes trethdalwr fel bod modd ystyried cofnodion busnes sy'n cael eu dal yno. Mae arolygu cofnodion ar safleoedd busnes yn y ffordd hon yn gallu bod yn hwylus i ACC a'r trethdalwr a gall helpu i ddilysu ffurflen dreth trethdalwr yn gyflym.

Nwyddau neu ddeunyddiau a chymryd samplau: mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig darparu pwerau arolygu i ACC lle mae nwyddau neu ddeunyddiau'n berthnasol i ffurflen dreth neu y gallant roi gwell dealltwriaeth o'r busnes a'i sefyllfa dreth. Yn yr un modd, pwerau i gymryd sampl o unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau lle byddai hyn yn help i benderfynu ar unrhyw dreth sy'n ddyladwy.

3.10 Gallai arolygiad ddilyn cais am ymweld â safle a mynd o'i amgylch a gweld unrhyw nwyddau sydd yn cael eu harddangos yn agored. Ni fyddai arolygiad fodd bynnag yn cyfateb i chwiliad. Ymdrinnir ar wahân, yn ddiweddarach yn y bennod hon, â'r pwerau sy'n ofynnol i gynnal chwiliad.

Pwerau i gywiro ffurflenni treth trethdalwyr

3.11 O dan ddeddfwriaeth y DU, gall CThEM ddiwygio ffurflenni treth yn yr amgylchiadau isod:

- cywiro ar sail gwallau rhifyddol; a,
- chywiro ar ôl darparu gwybodaeth bellach sy'n golygu bod modd ailgyfrifo cyfrifiad. Gallai hyn hefyd gynnwys ailgyfrifo ar sail barn orau resymegol.

3.12 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig breinio pwerau yn ACC i'w alluogi i wneud cywiriadau o dan amgylchiadau tebyg. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â dulliau gweithredu presennol yr awdurdod trethu a dulliau gweithredu sy'n cael eu datblygu. Hefyd, fel nodwedd allweddol o system drethu hunanasesu, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig sefydlu pwerau fel y gall ACC dderbyn ffurflen dreth wedi'i diwygio a gyflwynir gan drethdalwr.

Pwerau ymchwilio

3.13 Lle mae ACC yn amau gweithgarwch troseddol, bydd angen pwerau arno i allu cynnal ymchwiliad er mwyn cael tystiolaeth (gweler pennod 4).

3.14 Yn amodol ar fesurau diogelu priodol y ceir defnyddio pwerau o'r fath. Er enghraifft, yr angen i gael gwarant chwilio yn gyntaf gan ynad. Byddai hyn yn gyson â'r gofyniad ar gyrff cyhoeddus eraill sydd â phwerau ymchwilio, gan gynnwys CThEM a'i rôl bresennol yn rheoli trethi.

Pwerau i bennu cosbau

3.15 I annog cydymffurfio â threthi a thalu'n brydlon, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig deddfu i ddarparu pwerau i bennu cyfundrefn gosbi briodol, gyda manylion y cosbau'n cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth yn gysylltiedig â'r trethi penodol (gweler pennod 4).

Pŵer i gasglu dyledion

3.16 Caiff y rhan fwyaf o drethi sy'n ddyladwy eu talu'n wirfoddol, yn brydlon a heb angen am anogaeth ychwanegol gan awdurdod trethu. Gall fod achlysuron fodd bynnag pan fydd dyled dreth yn dal heb ei thalu a bydd dibynnu ar drefniadau gwirfoddol yn annigonol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i ACC fod â phwerau priodol os yw i gyflawni'i ddyletswydd casglu trethi yn effeithiol.

3.17 Mae dau senario posibl o ran dyled dreth sydd heb ei thalu:

- i) Ile mae trethdalwr yn barod i dalu, ond yn cael anhawster i wneud hynny ar y pryd. O dan amgylchiadau felly, bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gan ACC ddisgresiwn i allu

ymateb i helpu'r taliad i gael ei wneud. Er enghraifft, drwy sefydlu amserlen ad-dalu;

- ii) Ile mae trethdalwr yn amharod i dalu. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai fod gan ACC bŵer tebyg i'r un sydd ar gael i CThEM i'w alluogi i fynd ar ôl y ddyled dreth sydd heb ei thalu ynghyd â chostau cysylltiol fel llog a chosbau.

Cwestiwn 8. A ydych chi'n cytuno â'n bwriad i freinio pwerau yn Awdurdod Cyllid Cymru i'w alluogi i gasglu gwybodaeth a dogfennau trethdalwyr, arolygu safleoedd, cywiro ffurflenni treth a gallu cynnal ymchwiliadau, pennu cosbau a chasglu dyledion? Pa fesurau diogelu ychwanegol y gallem eu hystyried y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi'n barod?

Pwerau i ddirprwyo i gyrff eraill

3.18 Fel y nodwyd ym Mhennod 2, bydd ACC yn cadw'r cyfrifoldeb terfynol am gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn effeithiol ac effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu breinio pwerau yn ACC i'w alluogi un ai i ddatblygu gallu'n fewnol neu i wneud trefniadau gyda sefydliad arall i ymgymryd â swyddogaethau ar ei ran megis casglu trethi, gwaith ymchwilio a gorfodaeth droseddol.

3.19 Lle byddir yn dirprwyo bydd angen cytuno'n gyntaf ar y manylion, gan gynnwys telerau ac amodau'r trefniant, gyda Llywodraeth Cymru ac yna'u cyhoeddi, i sicrhau tryloywder. Bydd hefyd yn bwysig i ACC allu dirymu'r dirprwyo ar unrhyw bwerau, pe bai hynny'n briodol.

Cwestiwn 9. Beth yw'ch barn ar ddirprwyo? A oes unrhyw faterion penodol y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried pa swyddogaethau y gellid eu dirprwyo neu na ddylid eu dirprwyo, ac wrth ddethol corff i ddirprwyo iddo?

Pennod 4: Annog cydymffurfio â threthi

CYFLWYNIAD

4.1 Mae derbyniadau trethi yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus, felly mae'n hanfodol fod pobl yn talu'r trethi sy'n ddyladwy. Mae'r mwyafrif helaeth yn talu'r swm gofynnol yn brydlon. Mae annog a galluogi trethdalwyr i gydymffurfio yn gyson ag egwyddor tegwch, a bydd yn flaenoriaeth allweddol i ACC ac unrhyw sefydliad a allai gasglu a rheoli trethi ar ei ran.

RÔL ACC O RAN HYRWYDDO AC ANNOG CYDYMFFURFIO

4.2 Rôl allweddol i ACC fydd darparu addysg a chanllawiau safonol ac amserol i drethdalwyr ar sut a phryd i dalu treth. I sicrhau hygyrchedd, dylai canllawiau treth fod yn glir a hawdd eu darllen a dylent fod ar gael drwy amryw o sianelau a fformatau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.3 Wrth gynorthwyo trethdalwyr i dalu'u trethi'n brydlon, bydd ACC yn canolbwyntio ar gael y dreth yn iawn y tro cyntaf, ac ar ddarparu help i leihau'r angen i ddiwygio gwallau gweinyddol yn ddiweddarach. Bydd y cymorth hwn ar gael i drethdalwyr a'u hasiantau drwy amryw o sianelau a fformatau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, i sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb. Bydd ymyrryd cynnar pan fydd problemau posibl yn codi yn lleihau'r baich ar y trethdalwr, ei asiant ac ACC.

4.4 Un flaenoriaeth i ACC fydd sefydlu systemau ffeilio a thalu trethi (gan gynnwys systemau ar-lein), sy'n gwneud y broses weinyddol o dalu trethi mor syml â phosibl⁷. Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ACC geisio gwella profiad y trethdalwr yn barhaus a gwneud y ffeilio a'r talu yn llai cymhleth. Bydd y drefn hon hefyd yn help i leihau'r cyfle ar gyfer camgymeriadau gweinyddol wrth dalu trethi.

4.5 Lle mae newidiadau polisi a newidiadau gweinyddol yn cael eu cynnig i'r trethi datganoledig yn y dyfodol, bydd ACC yn ymgynghori'n gynnar a chynhwysfawr â threthdalwyr a'u hasiantau ac yn defnyddio amryw o sianelau a fformatau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.6 Gweithredir drwy ddull sy'n seiliedig ar risg, ond sy'n gymesur, i annog trethdalwyr i gydymffurfio – yn enwedig lle bu problem yn y gorffennol o ran cydymffurfio. Bydd ACC yn gallu datblygu perthynas barhaus â threthdalwyr a'u hasiantau. Gall ddefnyddio llythyron atgoffa, cyngor a chymorth a mathau eraill o gyfathrebu, i fynd ati'n rhagweithiol i atal peidio â chydymffurfio, lle mae hynny'n bosibl.

⁷ Bydd manylion systemau posibl ar gyfer ffeilio a thalu trethi, canllawiau a chymorth i drethdalwyr a'u hasiantau yn cael eu darparu yn yr ymgynghoriad ynghylch TTiL a WLFT ac yn y ddeddfwriaeth.

4.7 Bydd yn bwysig i ACC fod â phwerau i ddiwygio ffurflenni treth lle mae yna wallau clir, a allai arwain at daliad anghywir neu faterion eraill. Bydd hyn yn help hefyd i annog cydymffurfio a lleihau'r baich gweinyddol ar y trethdalwr, yr asiant ac ACC. Trafodwyd y pwerau hyn ym Mhennod 3.

Cwestiwn 10. Beth yw'ch barn ynglŷn â chamau eraill y dylai Awdurdod Cyllid Cymru eu cymryd i hyrwyddo ac annog cydymffurfio?

Annog ymgysylltu rhagweithiol ac adeiladol

4.8 Mae nifer o drafodiadau yn y gyfundrefn SDLT bresennol, yn arbennig, lle mae'r trethdalwr a'r awdurdod trethu'n cytuno bod treth yn ddyladwy, ond yn anghytuno ynglŷn â'r swm sydd i'w dalu. Yn yr achosion hyn, bydd proses glir a dealladwy ar gyfer adolygu mewnol ac apelio yn cael ei chynnig gan ACC i helpu i ddatrys yr anghytuno. Nodir y broses hon ym Mhennod 5. O dan yr amgylchiadau hyn, prif ffocws ACC fydd datrys y materion yn fuan ac yn foddhaol, a chwilio am gytundeb a chonsensws lle mae hynny'n bosibl.

Atal a gwrthannog peidio â chydymffurfio

4.9 Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ACC wneud popeth posibl i annog cydymffurfio a galluogi trethdalwyr i dalu'r swm iawn o dreth, a hynny'n brydlon. Fodd bynnag, bydd rhai yn peidio â chydymffurfio â'r gyfundrefn dreth yn fwriadol ac yn peidio ag ymgysylltu'n rhagweithiol ag ACC i gytuno ar y dreth sy'n ddyladwy.

4.10 Mae peidio â thalu trethi yn rhoi baich annheg ar y gymuned ehangach o drethdalwyr (gan fod rhai yn talu'u trethi, ac eraill heb fod yn talu). Mae'n lleihau'r refeniw sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac yn creu baich gweinyddol i ACC i fynd ar ôl y rhai nad ydynt yn cydymffurfio a'u cosbi.

4.11 Mae Llywodraeth Cymru'n deall mai cymharol fach yw'r nifer o achosion o beidio â chydymffurfio â SDLT ac LfT yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig deall y sefyllfaoedd lle mae'r achosion hyn o beidio â chydymffurfio yn codi, a chael proses glir i ddelio â'r achosion.

4.12 Mae nifer o resymau gwahanol am beidio â thalu trethi. Yn arbennig, mae strwythur y dreth a'r cyd-destun y caiff ei thalu ynddo yn gallu arwain at wahanol fathau o beidio â chydymffurfio: er enghraifft, mae'r LfT yn gysylltiedig ag achosion clir o efadu treth (peidio â thalu treth yn fwriadol, megis tipio anghyfreithlon). Bydd ACC am nodi dull priodol i'r dreth neilltuol dan sylw⁸ o ddelio â pheidio â chydymffurfio. Disgwylir i hyn gynnwys

⁸ Bydd y dull penodol o ymdrin â pheidio â chydymffurfio yn cael ei nodi yn yr ymgynghoriadau ynghylch TTiL a WLfT ac yn y ddeddfwriaeth.

llythyrau atgoffa, cosbau, a chyfeirio'r achos i system y Llysoedd yn y pen draw. Mae elfennau allweddol o gyfundrefn orfodi sifil a throeddol sydd yn rhai generig i TTiiL, WLfT a threthi a allai gael eu datganoli yn y dyfodol, a dylai hynny barhau.

Darparu eglurder o ran ymdrin â pheidio â chydymffurfio

4.13 Mae gan Lywodraeth Cymru set glir o egwyddorion o ran sut y bydd ACC yn ymdrin â pheidio â chydymffurfio. Bydd disgwyl i ACC fod yn adeiladol a chyson yn ei ymwneud â threthdalwyr a'u hasiantau, gan geisio datrys y sefyllfa a denu'r trethdalwr i gydymffurfio. Mewn achosion lle mae'n glir fod trethdalwyr neu asiantau wedi peidio â chydymffurfio yn fwriadol, bydd disgwyl i ACC wrthannog hynny a delio'n glir a chadarn â pheidio â chydymffurfio. Caiff y grym i gynnal cyfundrefn orfodi glir, gymesur, y mae modd rhag-weld ei gofynion; bydd yn cynnwys defnyddio cosbau sifil ac, yn y pen draw, defnyddio cyfundrefn orfodi droseddol os bydd rhaid.

COSBAU SIFIL

4.14 Os na hysbysir am dreth ddyladwy, neu os anfonir hi'n hwyr, bydd CThEM yn ystyried defnyddio pwerau cosbi sifil. Mae CThEM yn defnyddio tri math bras o gosb ar hyn o bryd:

- cosbau penodedig (ee pan na dderbynnir SDLT o fewn 30 diwrnod i drafodiad, codir cosb o £100);
- cosbau dyddiol (caiff llog ei gyfrifo'n ddyddiol ar y swm o SDLT sy'n ddyladwy os yw'n hwyr, yn ychwanegol at y cosb benodedig); a,
- chosbau seiliedig ar dreth fel cyfran o'r dreth ddyladwy (ee gall tan-ddatgan Treth Dirlenwi arwain at gosb o 5% o'r dreth ddyladwy).

4.15 Mae CThEM yn defnyddio gwahanol fathau o gyfundrefn gosbi o dan wahanol amgylchiadau ar gyfer TTDC ac LfT. Yn yr Alban, mae cosbau tebyg am fethu cyflwyno ffurflenni neu dalu treth wedi'u cynnwys ym Mil Cyllid yr Alban a Phwerau Trethu.

4.16 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai fod gan ACC bwerau i sefydlu cyfundrefn gosbi briodol. Bydd yr ymgynghoriadau ynglŷn â TTiiL a WLfT a'r deddfwriaeth yn nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y caiff y gwahanol gosbau eu defnyddio, yr amodau er mwyn eu cymhwyso a sut y cânt eu cyfrifo (yn cynnwys codi llog). Bydd disgwyl i ACC ymgynghori ynghylch a chyhoeddi canllawiau clir ar ddefnyddio cosbau a'r broses o'u cymhwyso.

Cwestiwn 11. A ydych yn cytuno y dylid rhoi'r pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru i bennu cosbau (gweler paragraff 4.14) a bod yr amodau o ran pryd a sut y cânt eu defnyddio i gael eu nodi mewn ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddiweddarach?

Cwestiwn 12. A oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd y caiff cosbau eu pennu ar y funud, a allai fod o gymorth wrth inni ddatblygu ein dull ni o ymdrin â threthi Cymreig?

GORFODAETH DROSEDDOL

4.17 Mae CThEM a'r gyfundrefn arfaethedig yn yr Alban wedi'u bwriadu i helpu trethdalwyr i gydymffurfio ac mae'r trefniadau'n gweithio yn y mwyafrif o achosion. Mae achlysuron, fodd bynnag, pan fo angen trefniadau ychwanegol ac mae cyfundrefnau gorfodi sifil a throseddol wedi cael eu sefydlu i annog cydymffurfio pellach.

4.18 Mae mwyafrif y camau gorfodi a gymerir gan CThEM yn digwydd drwy gyfundrefn o gosbau sifil, a thrafodwyd manylion y rheini yn gynharach yn y bennod hon. O ran gorfodaeth droseddol, mae'r pwerau wedi'u neilltuo ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, cymhleth ac uchel eu gwerth, ac mae'r rhain yn gymharol brin.

4.19 Mae tramgwyddau troseddol yn ymwneud â threth yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd fel hyn:

- twyllo'r refeniw cyhoeddus – ymddygiad twyllodrus sy'n amddifadu CThEM o incwm un ai drwy ymhonni anwir positif neu gelu neu beidio â datgelu atebolrwydd neu incwm (cymwys i droseddau a gyflawnir yng Nghymru a Lloegr yn unig);
- celu ac ati – celu, dinistrio neu waredu dogfen ar ôl cael hysbysiad gan CThEM fod y ddogfen yn destun hysbysiad gwybodaeth; a,
- throseddau twyll – nid yw'r rhain yn benodol i'r system drethu ac maent yn gymwys yn gyffredinol i unrhyw ymddygiad troseddol twyllodrus. Fel y cyfryw, nid oes angen cyflwyno darpariaeth benodol ar eu cyfer yn y system drethu.

4.20 Dim ond nifer fach o erlyniadau sydd wedi cael eu dwyn am dramgwyddau troseddol yng Nghymru a Lloegr yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y 12 mis diwethaf, ni fu unrhyw ymchwiliadau troseddol mewn perthynas â SDLT na'r LfT⁹ yng Nghymru.

4.21 Nid yw'r diffyg ymchwiliadau troseddol diweddar yng Nghymru serch hynny yn golygu nad oes angen sefydlu trefniant yma ar gyfer gorfodaeth droseddol pe bai'r angen yn codi. Gallai gorfodaeth lwyddiannus fod o fudd yn y pen draw i ddinasyddion Cymru, lle mae trethi sydd heb eu talu yn cael

9

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmhansrd/cm140224/text/140224w0001.htm#140224w0001.htm_wqn83

eu hadennill at ddefnydd gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru felly yn cynnig sefydlu trefniadau sy'n gyson â threfniadau presennol y DU, sy'n cefnogi cydymffurfio ac sy'n gweithredu fel arf ataliol cryf i unrhyw un sy'n ystyried efadu treth.

4.22 Bydd mabwysiadu dull cyson o ymdrin â gorfodaeth droseddol yn help i ddarparu eglurder ac, yn yr amgylchiadau, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai deddfwriaeth fanylu ar dramgwyddau troseddol ar batrwm tebyg i'r hyn sydd yn neddfwriaeth y DU.

4.23 I hyrwyddo'i gyfundrefn gorfodaeth droseddol, mae CThEM yn tynnu pwerau ymchwilio o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Gall swyddogion CThEM felly wneud cais am warant gan ynad i fynd i mewn i safle a'i chwilio i'r diben o arestio person; chwilio'r safle; ymafael mewn eitemau a'u cadw; a chadw person yn y ddalfa.

4.24 Mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno â Heddlu'r Alban y byddan nhw'n ymchwilio o fewn eu pwerau presennol i achosion lle'r amheuir twyll treth, yn hytrach na bod Cyllid yr Alban yn ymchwilio i weithgarwch troseddol.

4.25 Ein dull arfaethedig ni yng Nghymru o ymdrin â gorfodaeth droseddol yw dilyn trefniadau tebyg i'r rhai sydd ar waith yn y DU ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig rhoi pwerau i ACC i ymchwilio i droseddau treth penodol; fodd bynnag, ystyrir hefyd a allai'r pwerau hyn gael eu harfer yn uniongyrchol gan ACC neu drwy eu dirprwyo i gorff arall sydd eisoes â'r arbenigedd a'r gallu i ymgymryd â'r swyddogaeth, gan weithredu fel asiant ACC.

MESURAU DIOGELU CYHOEDDUS

4.26 Ynghyd â darparu pwerau i ymgymryd ag ymchwiliadau a gorfodaeth droseddol, mae angen cael trefniadau diogelu i sicrhau bod y cyfryw bwerau yn cael eu defnyddio'n briodol ac, o ran ymchwilio, eu bod yn cael eu defnyddio gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant penodol yn gyntaf.

4.27 Mae trefniadau diogelu ar waith ar hyn o bryd gyda chyrff annibynnol i ystyried agweddau o'r gwaith gweinyddu trethi a wneir gan CThEM. Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu sy'n gyfrifol am ystyried apelau a wneir gan aelodau o'r cyhoedd am gwynion difrifol yn erbyn staff CThEM yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddo bwerau i wrthdroi rhai penderfyniadau o eiddo CThEM. Mae gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi y pŵer i arolygu gweithredoedd ac anweithiau CThEM o ran atal, canfod, ymchwilio i dramgwyddau troseddol a'u herlyn. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig sefydlu trefniadau tebyg i'r rhai sy'n bodoli ar drws y DU ar hyn o bryd.

Erlyn troseddau treth yng Nghymru

4.28 Mae'n ofynnol i Wasanaeth Erlyn y Goron ddwyn achosion yn deillio o ymchwiliadau troseddol, yn cynnwys y rhai yr ymgwymerir â nhw gan yr heddlu a CThEM. Bydd angen gwneud trefniadau newydd i erlyn troseddau treth yng Nghymru yn sgil cyflwyno trethi i Gymru, felly mae Llywodraeth Cymru'n ystyried opsiynau er mwyn symud hyn ymlaen, gan gynnwys parhau i roi rôl i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Cwestiwn 13. Beth yw'ch barn ar y dull sy'n cael ei gynnig i ymdrin â gorfodaeth droseddol a'r mesurau i ddiogelu'r cyhoedd?

Pennod 5: Mynd i'r afael ag osgoi treth

CYFLWYNIAD

5.1 Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn talu'r swm priodol o dreth sy'n ddyladwy, a hynny'n brydlon. Mae lleiafrif o bobl sy'n efnadu talu treth yn fwriadol, ac mae hynny'n anghyfreithlon. Mae hefyd drydydd grŵp o bobl sy'n defnyddio strwythurau cyfreithiol a chyfleoedd amrywiol gwahanol i leihau eu bil treth. Mae deddfwriaeth (sylfaenol ac eilaidd) yn diffinio pa drethi sy'n ddyladwy a phryd. O fewn y fframwaith deddfwriaethol hwn mae cynllunio trethi yn gallu cael ei ystyried yn dderbyniol i drethdalwyr ac asiantau mewn llawer o achosion gan ei fod yn help i liniaru'r baich trethu.

5.2 Mae osgoi trethi, ar y llaw arall, yn cael ei ddiffinio'n aml fel cymhwysio deddfwriaeth mewn ffordd nad oedd wedi'i bwriadu er mwyn cael mantais treth. Nodwedd o hyn yn aml yw defnyddio trafodiadau artiffisial nad oes iddynt fawr o ddiben, neu ddim diben o gwbl, ar wahân i roi mantais treth. Mae osgoi trethi yn rhoi mantais annheg i bobl dros y rhai sy'n talu swm teg o dreth; mae'n lleihau faint o arian sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus; mae'n tanseilio ffydd yng nghydlyniant y system drethu; a gall wneud drwg i enw da proffesiwn y cynghorwyr treth.

5.3 Mae osgoi trethi yn bryder neilltuol o ran SDLT (a threthi eraill y DU, gan gynnwys treth incwm, treth ar enillion cyfalaf, treth etifeddiant a threth gorfforaeth), lle bu nifer o achosion osgoi yn y blynyddoedd diweddar ar draws y DU. Mae'r mwyafrif helaeth o asiantau a chynghorwyr trethdalwyr yn gyfrifol ac yn rhoi cyngor safonol a chadarn i drethdalwyr ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol a mwyaf derbyniol yn gyfreithiol o drefnu eu materion treth fel eu bod yn aros yn ddiogel o fewn y fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae rhai cynghorwyr neu asiantau nad ydynt yn cadw at y fframwaith deddfwriaethol ac yn hyrwyddo cynlluniau sydd efallai ag elfennau artiffisial sydd wedi'u bwriadu i roi mantais treth.

5.4 Rhoddir mandad clir i ACC i ddelio ag unrhyw osgoi trethi mewn perthynas â TTiL a threthi eraill a allai gael eu datganoli i Gymru yn y dyfodol. Bydd yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr ac asiantau treth cyfrifol sy'n gweithredu'n gyfreithlon ac yn cefnogi'u hymdrechion i weithio o fewn y ddeddfwriaeth.

Camau i fynd i'r afael ag osgoi trethi

5.5 Eglurder ynglŷn â bwriadau'r ddeddfwriaeth: mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth rhwng cynllunio trethi ac osgoi trethi yn cael ei ddiffinio gan 'fwriad' y ddeddfwrfa wrth basio'r ddeddfwriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu dogfennau ategol clir yn y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth, ac yn arbennig yn ystyried mater osgoi trethi.

5.6 Yn yr un modd, bydd disgwyl i ACC ddarparu canllawiau clir a chydlynol ar y diffiniad o osgoi trethi a sut yr ymdrinnir â hynny, a bod y canllawiau'n gyson â'r deddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn osgoi trethi, a'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gynllunio priodol. Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ACC ei gwneud yn glir bob amser wrth gyfathrebu ac ymgysylltu na fydd osgoi trethi yn cael ei oddef ac y cymerir camau cyflym a phendant i fynd i'r afael ag unrhyw gynlluniau osgoi posibl.

Dysgu am achosion osgoi posibl a'u deall

5.7 Mae CThEM wedi cyflwyno deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr a'u hasiantau neu'u cynghorwyr hysbysu CThEM o unrhyw gynllun osgoi treth posibl (Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi, neu DOTAS). Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu diwygio droeon yn neddfwriaeth y DU.

5.8 Nid yw datgelu cynllun o dan DOTAS yn golygu bod y cynnig i osgoi trethi yn dderbyniol; nid yw ond yn golygu bod yr hyrwyddwr neu'r defnyddiwr wedi cydymffurfio â'i rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu. Mae'r rhai nad ydynt yn datgelu eu bod yn defnyddio neu'n hyrwyddo'r cynlluniau hyn yn wynebu cosbau sylweddol (cost gychwynnol o hyd at £5,000 ac yna gosbau dyddiol o hyd at £600 y diwrnod).

5.9 Mantais y rheolau datgelu yw bod CThEM yn ymwybodol o gynlluniau osgoi yn gynnar ac y gall, os oes rhaid, sefydlu mesurau i'w gwrthweithio yn gyflym iawn; maent hefyd yn cael effaith atal gan ei bod yn fwy tebygol y bydd y rhai sy'n defnyddio cynlluniau osgoi trethi yn cael eu canfod.

5.10 Bydd yn bwysig fod ACC yn sefydlu trefniadau i wybod yn gynnar am gynlluniau osgoi trethi posibl, fel y gall weithredu'n gyflym i'w cau. Mae nifer o ffyrdd a allai fod yn fodd i ACC ddod i wybod am gynlluniau osgoi trethi sy'n gweithredu mewn perthynas â TTiiL yng Nghymru; yn eu mysg mae perthynas dda ag asiantau a chynghorwyr trethdalwyr yng Nghymru, ac a CThEM.

5.11 Mae perygl na fydd rhai cynlluniau osgoi trethi yn dod i sylw ACC am sbel ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Gallai'r amser a gymerir i ddod i wybod am y cynllun ac yna i basio deddfwriaeth briodol i gau unrhyw "ddihangdwll" anfwriadol ganiatáu i nifer o drafodiadau gael eu cwblhau o dan y cynllun osgoi, gan effeithio ar y referniw treth.

5.12 Mae'n ymddangos y byddai'n fwy cost-effeithiol canfod ffyrdd o ddod i wybod am gynlluniau osgoi trethi posibl yn gynnar yn eu datblygiad. Mae'n ymddangos y byddai rhesymau da i gael cyfundrefn ddatgelu yng Nghymru mewn perthynas â TTiiL, ac iddi fod yn gymwys i drethi pellach a allai gael eu datganoli yn y dyfodol fel arf allweddol i'r gyfundrefn casglu a rheoli trethi.

5.13 Mae cyfundrefn DOTAS CThEM yn hynod fanwl a chymhleth, ond mae asiantau a chynghorwyr ar draws y DU yn gyfarwydd iawn â hi ac yn ei

deall yn dda erbyn hyn. Mae trethdalwyr a'u hasiantau wedi tynnu sylw at fanteision peidio â newid gweithdrefnau gweithredol oni bai fod cyfleoedd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a bod modd eu gwneud yn fwy addas i anghenion Cymru. Mae cyfundrefn ddatgelu'n ymddangos yn faes lle byddai cadw cysondeb â chyfundrefn y DU yn rhoi manteision posibl drwy osgoi creu beichiau gweinyddol newydd sylweddol wrth ddysgu system newydd.

5.14 Mae rheolau DOTAS y DU wedi cael eu newid droeon, a chydag addasiadau'n parhau yn y DU mae'n bosibl y byddai adegau pan fyddai rheolau datgelu tra manwl gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Hoffai Llywodraeth Cymru glywed barn ymgynghoreion ar y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 14. A ddylai Cymru sefydlu cyfundrefn ddatgelu benodol ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli?

Cwestiwn 15. Beth yw'ch barn ar y materion allweddol wrth sefydlu cyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth? Beth yw'r manteision a'r risgiau a sut y gellid blaenoriaethu'r rhain?

Cwestiwn 16. A oes unrhyw opsiynau, ar wahân i gyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth, y gellid eu hystyried i helpu i roi gwybod i Awdurdod Cyllid Cymru am gynlluniau osgoi trethi posibl?

Gweithredu i gau cynlluniau osgoi trethi

5.15 Nod Llywodraeth Cymru yw gwneud deddfwriaeth treth mor benodol â phosibl. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn glir o brofiad y DU fod yna asiantau a chynghorwyr treth amheus sy'n ceisio datblygu cyfleoedd i ennill mantais treth drwy gamddefnyddio'r ddeddfwriaeth. Os bydd amgylchiadau felly'n codi, bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cyflwyno deddfwriaeth i gau'r cyfleoedd hynny wrth iddynt ddod yn hysbys.

5.16 Mae hyn yn ymarferol yn yr ystyr y bydd yn atal cynlluniau osgoi trethi rhag ennill eu plwyf, ond mae hefyd yn fwy sylfaenol yn yr ystyr y bydd yn dangos ymrwymiad Gweinidogion Cymru i weithredu'n gyflym yn erbyn unrhyw ymgais i osgoi trethi. Byddai angen ar hyn o bryd i unrhyw ddeddfwriaeth fod yn rhan o raglen ddeddfu Llywodraeth Cymru oherwydd, yn wahanol i Lywodraeth y DU, nid oes darpariaeth yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer Bil Cyllid blyneddol i wneud newidiadau i'r system drethu.

5.17 Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ddeddfwriaeth SDLT yn y blynyddoedd diwethaf i wahardd cynlluniau osgoi trethi penodol, ac i wneud y sefyllfa ddeddfwriaethol yn glir o ran cylch a chwmpas y dreth. Bydd y Rheolau Targededig i Atal Osgoi hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr ymgynghoriad a'r ddeddfwriaeth ar Dreth ar Drafodiadau yn Ymwneud â Buddiannau mewn Tir.

Pennu safbwynt deddfwriaethol ar osgoi trethi a chamddefnyddio'r gyfundrefn dreth

5.18 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod yn gallu cymryd amser i'r broses ddeddfwriaethol bresennol gau cynlluniau osgoi treth. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban hefyd ill dwy wedi cydnabod hyn, ac wedi cynnig dull deddfwriaethol ehangach o ymdrin ag osgoi trethi/camddefnyddio'r gyfundrefn dreth. Mae'r 'rheol' ddeddfwriaethol hon yn nodi set fwy egwyddorol o feini prawf ar osgoi trethi na'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth treth benodol, ac yn cadarnhau yr ystyrir y bydd ennill mantais treth o dan set neilltuol o amgylchiadau y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth.

5.19 Yr enw ar reol Llywodraeth y DU yw'r 'Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd'; yr enw ar reol Llywodraeth yr Alban yw'r 'Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi' (GAAR, y naill a'r llall). Mae rheol y DU yn gymwys i dreth etifeddiant, treth incwm, cyfraniadau Yswiriant Gwladol, treth ar enillion cyfalaf, treth gorfforaeth, treth ar refeniw petroliwm a SDLT. Mae'r GAARs yn rhoi'r cyfle i'r awdurdodau trethu i wrthwneud mantais treth trefniadau osgoi "artiffisial" ar sail egwyddorion osgoi treth, yn unol â'r diffiniad yn ddeddfwriaeth y naill wlad a'r llall. Nid yw hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth berthnasol ddod â deddfwriaeth gerbron i gau cynlluniau penodol. Mae GAAR y DU yn weithredol er mis Gorffennaf 2013 ac nid yw wedi cael ei phrofi eto.

5.20 Mae Llywodraeth Cymru'n glir ei bod yn annerbyniol osgoi trethi ac na chaiff hynny ei oddef, ar sail tegwch yn ogystal â'r refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus a gollir. Mae egwyddor GAAR wedi ei hen sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir hefyd fod sicrwydd yn egwyddor allweddol wrth weithredu trethi datganoledig yng Nghymru, ac y dylai trethi datganoledig gynnal busnesau a thwf economaidd. Ni ddylai GAAR i Gymru greu argraff o ansicrwydd i fusnesau. Mae GAAR y DU wedi mynd ati'n benodol ac yn fwriadol i ddiogelu busnesau yn y ffordd y caiff ei chymhwyso, gan gynnwys:

- a. defnyddio'r gair 'camddefnydd' yn y teitl, yn hytrach nag 'osgoi' yn nheitl yr Alban, gan bwysleisio mai dim ond mewn achosion eithafol o osgoi y caiff ei defnyddio;
- b. sefydlu Panel Cynghori annibynnol proffesiynol di-dâl, i ddweud wrth CThEM a yw sefyllfaoedd neilltuol yn achosion o gamddefnyddio'r gyfundrefn dreth.

5.21 Pe bai'n sefydlu GAAR mewn deddfwriaeth, byddai Llywodraeth Cymru'n cadw mewn cof fod trethdalwyr Cymru'n gweithio o fewn fframwaith osgoi trethi y DU yn barod o ran pob treth arall, a bod ymgynghori eang ar lefel y DU wedi digwydd ynglŷn â hynny. Mae trefn Llywodraeth yr Alban, er nad yw wedi cael ei phrofi eto, yn sefydlu'r hyn sydd yn ei barn hi yn safbwynt cadarn yn erbyn osgoi trethi i atal hynny rhag digwydd.

5.22 Byddai gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn eich barn ar y materion canlynol:

Cwestiwn 17. A oes angen Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd neu Reol Gyffredinol ar Atal Osgoi (GAAR) i Gymru ar gyfer trethi datganoledig?

Cwestiwn 18. A fydddech chi'n gweld GAAR i Gymru fel darpariaeth 'osgoi', ehangach, neu fel darpariaeth 'camddefnydd', gulach?

Cwestiwn 19. Pa mor bwysig yw panel annibynnol i roi mwy o sicrwydd i fusnesau ynglŷn â sut y byddai GAAR yn gweithio? Beth yw anfanteision panel annibynnol?

Cwestiwn 20. O ystyried y cysylltiadau clir rhyngddo â Threth ar Drafodiadau yn Ymwneud â Buddiannau mewn Tir, a ddylai GAAR gael ei ystyried ymhellach wrth ymgynghori ynglŷn â'r dreth honno a deddfu arni?

Pennod 6: Datrys anghydfodau treth

CYFLWYNIAD

6.1 Mae'r bennod hon yn nodi'n cynigion i reoli a datrys unrhyw anghydfodau a allai godi rhwng y trethdalwr ac ACC wrth weinyddu trethi. Gallai anghydfodau godi oherwydd barn wahanol ar faterion fel faint o dreth sy'n ddyladwy neu pa bryd y dylai treth gael ei thalu. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n bwysig fod trefniadau wedi'u sefydlu i helpu i ddatrys pethau'n deg ac yn gyflym.

CEFNDIR

6.2 Mae gan drethdalwyr hawl ar hyn o bryd i apelio yn erbyn penderfyniad gan CThEM ar faterion amrywiol yn cynnwys: y dreth y mae'n ofynnol iddynt ei thalu; a, thalu'r dreth tra mae'n dal yn destun anghydfod (er enghraifft, ar sail caledi).

6.3 Gall trethdalwyr drafod yn anffurfiol unrhyw feysydd o'r fath lle mae anghytuno, a cheisio'u datrys yn gyflym. Os na ddigwydd hynny, gall y trethdalwr herio'r penderfyniad drwy broses adolygu fewnol neu drwy gyfeirio'r achos i'r tribiwnlys trethi, neu'r naill a'r llall. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal system tribiwnlys trethi ar gyfer apelau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

6.4 Nid oes gwybodaeth ar gael yn hwylus am apelau'n ymdrin â SDLT ac LfT sy'n deillio o Gymru, ond mae tystiolaeth anecdotaidd a pheth tystiolaeth ystadegol yn awgrymu bod nifer yr apelau yng Nghymru yn isel. Hefyd, ni chanfuwyd unrhyw apelau yn ymwneud â Chymru sydd wedi'u cyfeirio i'r system dribiwnlysoedd.

6.5 Pan fydd trethdalwr yn cyflwyno apêl, mae'r trefniadau sydd ar waith gyda CThEM yn golygu ei bod yn gyntaf yn mynd drwy fecanwaith sydd â'r bwriad o ddatrys materion yn gyflym, fel nad yw'r apêl yn datblygu'n anghydfod y mae rhaid iddo gael ei ddatrys gan dribiwnlys.

6.6 Gall mecanweithiau datrys cynnar gynnwys y camau canlynol:

- Trafodaeth anffurfiol – ceir yma gyfle cynnar i drafod unrhyw faterion yn anffurfiol ac yn uniongyrchol gyda'r sawl sy'n penderfynu, i geisio'u datrys;
- Adolygiad Mewnol – gall trethdalwr ofyn am i swyddog annibynnol ailystyried y penderfyniad ac, wrth wneud hynny, ystyried unrhyw wybodaeth newydd sydd wedi dod ar gael;
- Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod – cynnwys trydydd parti annibynnol i helpu i ddatrys anghydfod.

6.7 Mae gwahanol bosibiliadau o ran Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR), yn cynnwys:

Cymrodeddu, sy'n defnyddio cymrodeddwr niwtral i benderfynu ar ganlyniad yr anghydfod. Ar ôl i'r partïon gytuno i'r broses, mae cymrodeddu yn rhwymo (mae'r penderfyniad yn derfynol a dim ond ar seiliau cul iawn y gellir apelio).

Cyfryngu, sy'n defnyddio cyfryngwr niwtral i helpu'r partïon i drafod a chanfod ateb sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall. Mae CThEM yn defnyddio'r dull hwn ac yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi cael ei fabwysiadu hefyd gan gyrff gweinyddu trethi Awstralia, Seland Newydd a Chanada.

Gwerthuso niwtral cynnar (sydd hefyd yn cael ei alw'n gydwerthuso/gwerthuso niwtral nad yw'n rhwymo). Mae hyn yn golygu cyfeirio anghydfod at arbenigwr, barnwr fel arfer, sy'n rhoi barn gytbwys a diduedd ar yr anghydfod a'r canlyniad tebygol pe bai'n mynd i wrandawriad tribiwnlys. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi treialu'r dull hwn yn y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant.

6.8 Mae dilyn llwybr ADR yn gallu golygu bod anghydfod yn cymryd llai o amser ac yn llyncu llai o adnoddau na mynd i dribiwnlys¹⁰; ac nid yw trethdalwyr yn gorfod mynd drwy straen a ffurfioldeb gwrandawriad gerbron tribiwnlys. Mae hefyd yn arbed arian i'r trethdalwr a CThEM o'i gymharu â chostau achos llys. Fel arfer caiff cost hwyluso allanol ei rhannu rhwng y trethdalwr a CThEM.

6.9 Gallai'r dull hwn fod o fudd i ddatrys anghydfodau sydd wedi para'n hir, lle mae agweddau wedi caledu ar y naill ochr a'r llall neu nad oes symud ymlaen. Er enghraifft, gallai ADR:

- grisialu'r meysydd lle mae anghytuno mewn un neu ragor o elfennau o anghydfod, drwy egluro materion technegol;
- nodi pwyntiau o wahaniaeth ond gan gynnal neu greu perthynas waith dda rhwng y partïon yr un pryd;
- bod yn ffordd i ddarparu rhagor o wybodaeth neu helpu'r partïon i gytuno ar ffeithiau allweddol;
- egluro'r cwestiynau allweddol y mae angen eu hateb er mwyn datrys yr anghydfod (hy cytuno ar strwythur penderfynu); neu
- grisialu'r pwyntiau neilltuol mewn anghydfod; hyd yn oed os na cheir setliad bydd hyn yn help i baratoi ar gyfer mynd i gyfraith.

¹⁰ Canfu adroddiad gan CThEM ar y Peilot defnyddio ADR mewn achosion cymhleth yn 2013 mai 24 wythnos oedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd o wneud cais hyd at ddatrasiad yn yr achosion hynny lle defnyddiwyd ADR. Mewn cymhariaeth, roedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd o apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys hyd nes i'r apêl gael gwrandawriad oddeutu 70 wythnos.

6.10 Er nad yw ADR wedi cael ei ddefnyddio'n eang hyd yma i ddatrys anghydfodau Treth Dirlenwi a SDLT (ni fu unrhyw achosion diweddar), mewn amgylchiadau priodol mae'n gallu bod yn ddull cost-effeithiol a chydysniol a chynnig ffordd gyflym o helpu i ddatrys anghydfodau treth.

Osgoi anghydfodau a cheisio datrasiad cynnar

6.11 Egwyddorion treth Llywodraeth Cymru fydd yn pennu sut yr ymdrinnir â threfniadau apêl yng Nghymru. Yn arbennig, cânt eu sefydlu i fod yn deg, syml, tryloyw, effeithlon a fforddiadwy.

6.12 Bydd Llywodraeth Cymru'n manylu ar agweddau allweddol gweithredu'r broses apêl yn y ddeddfwriaeth casglu a rheoli trethi. O ran diffinio penderfyniadau y ceir apelio yn eu herbyn, bydd angen archwilio hyn ymhellach gyda rhanddeiliaid ac mae'n debygol o fod yn wahanol i bob treth (fel y mae yn neddfwriaeth y DU ar hyn o bryd). Felly, manylir ar bob maes lle ceir apelio yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y dreth benodol. Serch hynny, mae penderfyniadau lle ceir apelio yn debygol o gynnwys y canlynol. Penderfyniad sy'n effeithio ar:

- ba un a yw person yn un y gellir codi treth arno;
- y swm o dreth sydd i'w godi ar berson;
- y swm o dreth y mae'n ofynnol i berson ei dalu;
- pennu cosbau;
- erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i unrhyw swm, ar ffurf treth, gael ei dalu; a
- pha un ai hysbysiad gwybodaeth neu bŵer ymchwilio a ddefnyddir.

6.13 Un o'n hamcanion polisi allweddol fydd ceisio atal anghydfodau rhag codi yn y lle cyntaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ACC weithio ar y sail y bydd yn cael pethau'n iawn y tro cyntaf, gan feithrin diwylliant o gydweithio â threthdalwyr i ddatrys anghydfodau lle maent yn codi. Wrth wneud hyn, bydd angen i ACC gefnogi trethdalwyr drwy sefydlu canllawiau a phrosesau clir a hygyrch. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i egluro penderfyniadau yn ddiamwys ac yn amserol.

6.14 Ni fydd wastad yn bosibl osgoi anghydfod, felly mae Llywodraeth Cymru'n cynnig, er mwyn tegwch a thryloywder, y dylai'r deddfwriaeth roi'r hawl i drethdalwyr apelio yn erbyn penderfyniad a wneir gan ACC. Egwyddor allweddol fydd ceisio peidio â chreu gwrthdaro pan fydd anghydfod yn codi.

6.15 Rydym yn cynnig sefydlu proses apêl gynnar debyg i'r un a ddefnyddir gan CThEM ar hyn o bryd, sy'n cynnwys camau ar gyfer trafod anffurfiol, adolygu mewnol, ac ADR drwy gyfryngu. Byddai hyn yn cynnwys mabwysiadu'r arfer y dylai'r naill barti a'r llall (y trethdalwr ac ACC) rannu costau ADR, ond byddai rhaid cytuno ar hynny ymlaen llaw.

6.16 Wrth ystyried ADR bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar y gwahanol ddulliau sydd ar gael, gan gynnwys cyfryngu, y dull sy'n cael ei ffafrio a'i fabwysiadu gan CThEM – ond byddwn hefyd yn ystyried cymrodeddu a gwerthuso niwtral cynnar fel yr amlinellwyd uchod ym mharagraff 6.12.

Cwestiwn 21. A ydych yn cytuno â'n dull o osgoi anghydfodau treth a sicrhau datrysiad cynnar?

Cwestiwn 22. A ydych yn meddwl y dylai mecanwaith/mecanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod gael ei gynnig/eu cynnig i helpu i geisio datrys anghydfodau treth yn gynnar?

Cwestiwn 23. Pa fecanwaith/fecanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod sy'n fwyaf tebygol o helpu i ddatrys anghydfodau treth a pham?

Rôl Tribiwnlys o ran datrys anghydfod

6.17 Os na chaiff anghydfod treth ei ddatrys drwy broses apêl fewnol CThEM gall trethdalwr gyfeirio'r mater i gael penderfyniad arno drwy system tribiwnlysoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

6.18 Mae'r system tribiwnlysoedd yn cynnwys y Tribiwnlys Haen Gyntaf (y mae'r Siambr Drethi yn rhan ohono) a'r Uwch-dribiwnlys (y mae'r Siambr Trethi a Siawnsri yn rhan ohono). Mae system y Tribiwnlys Haen Gyntaf/Uwch-dribiwnlys yn gweithredu ar sail y DU neu Gymru a Lloegr ar gyfer rhai materion yn cynnwys trethiant. Mewn perthynas â threth, y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n gwrando ar y rhan fwyaf o apelau yn erbyn penderfyniadau terfynol CThEM, er bod modd cyfeirio rhai apelau neu sialensiau'n uniongyrchol at yr Uwch Dribiwnlys. Caiff apelau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf eu gwneud i'r Uwch-dribiwnlys (ac o'r Uwch-dribiwnlys mae apelau fel arfer yn mynd i'r Llys Apêl). Mae gan yr Uchel Lys bŵer i drosglwyddo achosion adolygiad barnwrol i'r Uwch Dribiwnlys.

6.19 Nid oes gan Gymru ei system farnwrol ei hun felly wrth ystyried trefniadau apêl y gellid eu sefydlu, rhaid ystyried y gofyniad i'w cysylltu â'r system farnwrol sy'n bodoli yng Nghymru/Lloegr ar ryw bwynt yn y broses apêl.

6.20 Mae tri opsiwn posibl wedi cael eu hystyried er darparu trefniant tribiwnlys treth i Gymru: i) sefydlu tribiwnlys treth newydd i Gymru; ii) datblygu tribiwnlys sy'n bodoli'n barod yng Nghymru i ymgymryd â'r swyddogaeth; a, iii) parhau i ddefnyddio'r system tribiwnlys ddwy haen bresennol sy'n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda'r posibilrwydd o gyflwyno elfennau ychwanegol penodol i Gymru.

6.21 Sefydlu tribiwnlys treth newydd i Gymru. Mae'r lefel isel o apelau o Gymru hyd yma yn deillio o SDLT ac LFT yn awgrymu mai ychydig iawn efallai o achosion fyddai i dribiwnlys newydd wrando arnynt. Mae amheuan felly a ellid cyfiawnhau'r gost o sefydlu tribiwnlys â'r profiad gofynnol ym maes trethu ac a fyddai'n cynrychioli gwerth am arian.

6.22 Datblygu tribiwnlys sy'n bodoli'n barod yng Nghymru. Mae gan Gymru sawl tribiwnlys datganoledig yn barod, megis y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, felly mae'r posibilrwydd o ehangu rôl un neu ragor o'r rhain i gynnwys trethi wedi cael ei ystyried. Gan fod y trethi newydd arfaethedig i Gymru yn wahanol iawn eu natur a bod angen arbenigedd treth i wrando ar apelau, mae'n ymddangos yn annhebygol y gallai tribiwnlys presennol ymdopi'n hawdd â'r swyddogaeth treth newydd – yn y tymor byr o leiaf. Gallai gwneud hynny achosi dryswch ac anghysondeb gan mai'r trefniadau tribiwnlys a weinyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fyddai'n berthnasol o hyd i drethi sydd heb eu datganoli.

6.23 Parhau i ddefnyddio'r system tribiwnlys ddwy haen bresennol sy'n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae i'r dull hwn rinweddau o ran cysondeb a chydlyniant a byddai iddo'r fantais na cheid llawer o newid i drethdalwyr. Mae i'r trefniadau'r fantais bod arbenigedd treth ar gael iddynt eisoes.

6.24 Ar ôl ystyried y tri opsiwn, mae Llywodraeth Cymru, am y tro beth bynnag, yn cynnig defnyddio'r system tribiwnlysoedd treth ddwy haen bresennol sy'n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan y bydd hyn yn ateb y gofynion ar hyn o bryd. Wrth ddefnyddio system y Weinyddiaeth Gyfiawnder, bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio cyfleoedd posibl i'w gwella ac ymateb i amgylchiadau penodol Cymru. Byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sail i unrhyw drefniant. Hefyd, wrth i arbenigedd treth ddatblygu yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru'n edrych eto ar y trefniadau maes o law er mwyn ystyried y posibilrwydd o adleoli'r swyddogaeth mewn system tribiwnlysoedd i Gymru.

Cwestiwn 24. A ydych yn cytuno â'n dull arfaethedig o ddefnyddio'r system tribiwnlysoedd treth ddwy haen bresennol sy'n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel trefniant dros dro o leiaf?

Amseriad talu treth pan fydd anghydfod yn codi

6.25 O dan drefniadau cyfredol y DU, o dan rai amgylchiadau gall trethdalwyr sy'n anghytuno â phenderfyniad treth wneud cais i ohirio talu'r dreth nes caiff yr anghydfod ei ddatrys. Bu gohirio'n bosibl yng nghyswllt trethi uniongyrchol fel SDLT, tra mae prawf caledi ariannol yn cael ei roi ar waith yn gyntaf yn achos trethi anuniongyrchol fel yr LFT i benderfynu a ddylai taliad ymlaen llaw gael ei wneud.

6.26 Mae defnydd eang wedi cael ei wneud o'r cyfle i ohirio talu treth ac mae adroddiadau anecdotaidd ei fod wedi cael ei ddefnyddio i osgoi talu treth. Mae hyn wedi bod yn gostus o ran y gofynion gweinyddol ychwanegol a hefyd y refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'i golli. Yn yr amgylchiadau, mae CThEM yn cyflwyno 'taliad carlam (ymlaen llaw)' fel ffordd o fynd i'r afael â hyn. Mae'r drefn yn cael ei mabwysiadu mewn achosion Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi (DOTAS) neu lle ceir trefniadau nad ydynt yn rhesymol ym marn y panel GAAR ac mae disgwyl iddi effeithio ar unigolion sydd â gwerth net uchel.

6.27 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y posibilrwydd o fabwysiadu egwyddor "talu'n gyntaf" o ran trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru. O dan drefn felly câi'r trethi dyladwy eu cyfrifo a byddai rhaid eu talu'n gyntaf – byddai hynny'n cynnwys amgylchiadau lle mae apêl wedi cael ei chyflwyno ac nad yw ei chanlyniad yn hysbys. Byddai hyn yn osgoi unrhyw ragdybiaeth y byddai talu trethi yn cael ei ohirio'n awtomatig yn sgil apelio.

6.28 Pe câi dull o'r fath ei fabwysiadu byddai hynny ar y sail ei fod yn cael ei wrthbwyso gan degwch, mynediad at gyfiawnder a pharodrwydd i ystyried gwir galedi. Er enghraifft, pe bai apêl yn llwyddiannus, câi'r dreth a dalwyd ei had-dalu, ynghyd â llog. Pe bai ACC a'r trethdalwr yn methu cytuno ar gais i ohirio talu treth, dylai fod yn bosibl cyfeirio'r mater at gymroddedwr annibynnol – y tribiwnlys treth, mwy na thebyg.

Cwestiwn 25. Beth yw'ch barn ar werth mabwysiadu egwyddor "talu'n gyntaf", sut y dylid ei chymhwyso i drethi penodol ac a oes unrhyw amgylchiadau lle dylid gohirio cyn ei chymhwyso i dalu trethi ac unrhyw gosbau a thaliadau llog cysylltiol?

Atodiad 1: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad ynghylch casglu a rheoli trethi datganoledig
yng Nghymru (Rhif: WG22945)

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Enw:	
E-bost:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad:	
Tref:	
Cod post:	
Sefydliad (os ydych yn ymateb ar ran y sefydliad hwnnw):	

Pennod 2: Sefydlu swyddogaeth gweinyddu trethi, Awdurdod Cyllid Cymru/Welsh Revenue Authority

Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel Adran Anweinidogol, sy'n atebol i'r Cynulliad?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

Cwestiwn 2. Beth yw'ch barn am y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau i Awdurdod Cyllid Cymru?

Cwestiwn 3. A oes gennych farn bellach ar y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu arfaethedig ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru?

Cwestiwn 4. Beth yw'ch barn ar y cynigion i sefydlu Siarter Drethdalwyr? Pa gamau sy'n hanfodol i sicrhau bod y siarter yn parhau'n berthnasol ac effeithiol o ran cynnal perthynas adeiladol rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a threthdalwyr?

Cwestiwn 5. Beth yn eich barn chi yw'r ystyriaethau pwysicaf wrth benderfynu sut i ymdrin â chasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, a pham? (Wrth ateb, cofiwch ystyried y ffactorau a nodwyd ym mharagraff 2.37, ond tynnwch sylw hefyd at unrhyw ffactorau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys, sydd yn eich barn chi yn bwysig.)

Cwestiwn 6. O ystyried eich ateb i gwestiwn 5, pa sefydliad(au) ddylai gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn eich barn chi, a pham?

Pennod 3: Pwerau a dyletswyddau

Cwestiwn 7. A ydy'r rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr yn briodol? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu hystyried?

Ydynt

☐

Nac ydynt

☐

Cwestiwn 8. A ydych chi'n cytuno â'n bwriad i freinio pwerau yn Awdurdod Cyllid Cymru i'w alluogi i gasglu gwybodaeth am drethdalwyr, arolygu safleoedd, cywiro ffurflenni treth a gallu cynnal ymchwiliadau, pennu cosbau a chasglu dyledion? Pa fesurau diogelu ychwanegol y gallem eu hystyried y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi'n barod?

Cwestiwn 9. Beth yw'ch barn ar ddirprwyo? A oes unrhyw faterion penodol y dylid eu cadw mewn cof wrth ystyried pa swyddogaethau y gellid eu dirprwyo neu na ddylid eu dirprwyo, ac wrth ddethol corff i ddirprwyo iddo?

Pennod 4: Annog cydymffurfio â threthi

Cwestiwn 10. Beth yw'ch barn ynglŷn â chymau eraill y dylai Awdurdod Cyllid Cymru eu cymryd i hyrwyddo ac annog cydymffurfio?

Cwestiwn 11. A ydych yn cytuno y dylid rhoi'r pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru i bennu cosbau (gweler paragraff 4.14) a bod yr amodau o ran pryd a sut y cânt eu defnyddio i gael eu nodi mewn ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddiweddarach?

Cwestiwn 12. A oes gennych unrhyw sylwadau am y ffordd y caiff cosbau eu pennu ar y funud, a allai fod o gymorth wrth inni ddatblygu ein dull ni o ymdrin â threthi Cymreig?

Cwestiwn 13. Beth yw'ch barn ar y dull sy'n cael ei gynnig i ymdrin â gorfodaeth droseddol a'r mesurau i ddiogelu'r cyhoedd?

Pennod 5: Mynd i'r afael ag osgoi trethi

Cwestiwn 14. A ddylai Cymru sefydlu cyfundrefn ddatgelu benodol ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli?

Dylai

☐

Na ddylai

☐

Cwestiwn 15. Beth yw'ch barn ar y materion allweddol wrth sefydlu cyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth? Beth yw'r manteision a'r risgiau a sut y gellid blaenoriaethu'r rhain?

Cwestiwn 16. A oes unrhyw opsiynau, ar wahân i gyfundrefn ddatgelu at ddibenion treth, y gellid eu hystyried i helpu i roi gwybod i Awdurdod Cyllid Cymru am gynlluniau osgoi trethi posibl?

Cwestiwn 17. A oes angen Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd neu Reol Gyffredinol ar Atal Osgoi (GAAR) i Gymru ar gyfer trethi datganoledig?

Cwestiwn 18. A fydddech chi'n gweld GAAR i Gymru fel darpariaeth 'osgoi', ehangach, neu fel darpariaeth 'camddefnydd', gulach?

Cwestiwn 19. Pa mor bwysig yw panel annibynnol i roi mwy o sicrwydd i fusnesau ynglŷn â sut y byddai GAAR yn gweithio? Beth yw anfanteision panel annibynnol?

Cwestiwn 20. O ystyried y cysylltiadau clir rhyngddo a Threth ar Drafodiadau yn Ymwneud â Buddiannau mewn Tir, a ddylai GAAR gael ei ystyried ymhellach wrth ymgynghori ynglŷn â'r dreth honno a deddfu arni?

Pennod 6: Datrys anghydfodau treth

Cwestiwn 21. A ydych yn cytuno â'n dull o osgoi anghydfodau treth a sicrhau datrysiad cynnar?

Cwestiwn 22. A ydych yn meddwl y dylai mecanwaith/mecanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod gael ei gynnig/eu cynnig i helpu i geisio datrys anghydfodau treth yn gynnar?

Cwestiwn 23. Pa fecanwaith/fecanweithiau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod sy'n fwyaf tebygol o helpu i ddatrys anghydfodau treth a pham?

Cwestiwn 24. A ydych yn cytuno â'n dull arfaethedig o ddefnyddio'r system tribiwnlysoedd treth ddwy haen bresennol sy'n cael ei gweinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel trefniant dros dro o leiaf?

Cwestiwn 25. Beth yw'ch barn ar werth mabwysiadu egwyddor "talun gyntaf", sut y dylid ei chymhwyso i drethi penodol ac a oes unrhyw amgylchiadau lle dylid gohirio cyn ei chymhwyso i dalu trethi ac unrhyw gosbau a thaliadau llog cysylltiol?

A oes gennych unrhyw faterion cysylltiol nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Cyhoeddi'r ymatebion

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hyn yn help i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol.

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

Dychwelyd y ffurflen hon

☐

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **15 Rhagfyr 2014**.

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen hon atom yn y post i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Diwygio Ariannol
2^{ail} Lawr - Dwyrain
Llywodraeth Cymru
PACC Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

neu e-bostiwch hi at: FinancialReformMailbox@wales.gsi.gov.uk

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, rhowch **Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru** yn y blwch testun.

Atodiad 2: Rhestr termau

ACC	Awdurdod Cyllid Cymru
ADR	Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod
CThEM	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
DEL	Terfyn Gwariant Adrannol
DOTAS	Datgelu Cynlluniau Osgoi Trethi
GAAR	Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd/ Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi
LfT	Y Dreth Dirlenwi
SEPA	Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban
SDLT	Treth Dir y Dreth Stamp
TTiIL	Treth ar Drafodiadau sy'n Ymwneud â Buddiannau mewn Tir
WLfT	Treth Dirlenwi Cymru

Atodiad 3: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Opsiynau

Cefndir

1. Ym mis Tachwedd 2013, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bod yn gyffredinol yn derbyn yr argymhellion yn rhan gyntaf Comisiwn Silk Llywodraeth y DU, a chyflwynodd Fil Cymru i'r Senedd ym mis Mawrth 2014. Erbyn hyn mae Bil Cymru ar ei ffordd drwy Senedd y DU ac, yn ogystal â darparu'r gallu i fenthycu i ariannu buddsoddiadau, bydd yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i gyflwyno trethi yn lle Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi. Os caiff Bil Cymru ei basio fel y mae ar hyn o bryd at ei gilydd, bydd y trethi hynny yn peidio â bod yn weithredol yng Nghymru o fis Ebrill 2018.
2. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynglŷn â'r ddeddfwriaeth casglu a rheoli trethi yn ystyried effaith debygol sefydlu cyfundrefn casglu a rheoli trethi ar drethdalwyr a'u hasiantau. Bydd hefyd yn nodi costau tebygol casglu a rheoli trethi Cymreig i Lywodraeth Cymru.
3. Bydd y ddeddfwriaeth ddiweddarach i ddod â TTiiL i Gymru a Threth Dirlenwi Cymru gerbron yn ystyried yr opsiynau amrywiol o ran cyfraddau, trothwyon, eithriadau ac esemptiadau. Bydd hynny'n dylanwadu ar ofynion gweinyddol y trethi unigol hyn a'r refeniw a godir drwyddynt, a hefyd ar yr asesiad effaith rheoleiddiol. Cyhoeddir ymgynghoriadau ar wahân ynghylch y rhain yng ngwanwyn 2015. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol casglu a rheoli trethi yn edrych ar fanylion y trethi hyn.

Effaith sefydlu cyfundrefn casglu a rheoli trethi ar drethdalwyr Cymru a'u hasiantau

4. Mae'n ofynnol yn ôl Bil Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod â deddfwriaeth arbennig gerbron ar gasglu a rheoli trethi yng Nghymru, er mwyn iddo allu gweinyddu'r trethi datganoledig. Mae'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn debygol o fod yn wahanol i ddeddfwriaeth bresennol y DU mewn rhyw ffordd o leiaf. Mae'r gyfundrefn weinyddol hefyd yn debygol o fod rywfaint o leiaf yn wahanol.
5. Gwahoddwyd ymgynghoreion i gynnig sylwadau ar gyfundrefn dreth newydd (Pennod 2). Gallai hyn fod yn welliant sy'n arwain maes o law at lai o faich gweinyddol, ond fod angen rhai newidiadau gweinyddol ar y dechrau. Felly, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd rhywfaint o

6. gost i fusnesau yng Nghymru yn y tymor byr wrth iddynt orfod dysgu'r system newydd.
7. Bydd hyn yn bwysig am gyfnod hwy i'r busnesau hynny sy'n gweithredu ar draws ffin Cymru a Lloegr, gan y bydd gofyn iddynt ddysgu a gweithredu dwy system wahanol o gasglu a rheoli treth yng nghyswllt treth neilltuol.
8. Yn yr un modd, bydd trethdalwyr Cymreig (sy'n talu TTiL a WLFT) yn parhau i fod yn drethdalwyr y DU o ran pob treth arall. Gallai'r angen posibl i gyfathrebu â gwahanol sefydliadau ynglŷn â gwahanol drethi greu baich gweinyddol bach.

Costau tebygol casglu a rheoli trethi Cymru i Lywodraeth Cymru

9. Mae gwaith manwl yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynglŷn â phwy efallai fyddai'n casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru, a bydd y Gweinidogion mewn sefyllfa i wneud penderfyniad yn gynnar yn 2015. Mae Pennod 2 yn manylu ar ffactorau posibl sy'n rheoli costau yn y cyswllt hwn ac mae Cwestiwn 5 yn gofyn am farn pobl ynglŷn â'r ystyriaethau pwysicaf wrth benderfynu pa ddull i'w ddefnyddio i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, a pham.
10. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto ynglŷn â lleoliad y corff na'r strwythur gweinyddol ehangach gan fod y penderfyniad hwn yn dibynnu'n rhannol ar bwy fydd yn casglu a rheoli trethi Cymru. Mae hynny'n rhan o'r ymgynghoriad. Felly, ar wahân i'r amcangyfrifon lefel uchel o gostau gwybyddus, prin yw'r dadansoddiadau neu'r cymariaethau cost sydd ar gael.
11. Mae costau'n gysylltiedig â sefydlu'r corff corfforaethol. Adran Anweinidogol fydd y corff gyda Bwrdd, Cadeirydd anweithredol, a Phrif Weithredwr. Amcangyfrifir y bydd costau parhaus y rhain ar ôl i'r corff ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2018 oddeutu £140k y flwyddyn. Dylai'r corff gael ei sefydlu mewn da bryd cyn y dyddiad pan fydd trethi Cymru'n dod yn weithredol ym mis Ebrill 2018. Bydd cyfnod cysgodi gyda Phrif Swyddog Gweithredol interim a gaiff ei benodi ym mis Medi 2016 a Chadeirydd a benodir ym mis Ebrill 2017. Amcangyfrifir y bydd y costau staff yn y 18 mis cyn i'r corff ddod yn weithredol oddeutu £200k.
12. Ffocws allweddol ar y cam ymgynghori hwn yw datblygu dealltwriaeth glir o'r prosesau busnes a'r gofynion gwybodaeth sy'n cael eu ffafrio o ran casglu a rheoli trethi Cymru er mwyn asesu pa sefydliad(au) sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r gwaith hwn ac am ba gost. Mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys defnyddio un sefydliad i gasglu a rheoli'r trethi, defnyddio amryw o sefydliadau neu roi'r cyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi ar y corff corfforaethol ei hun. Gwneir rhagor o waith cyn cyflwyno'r Bil i ganfod costau a buddion

cymharol y gwahanol opsiynau a bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyhoeddi ynghyd â'r Bil.

13. Mae'n bwysig nodi na fydd yr un o'r opsiynau'n osgoi'r angen am Dechnoleg Gwybodaeth (TG) o ryw fath. Daw'r costau TG yn gliriach pan fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a bod penderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â model gweithredu'r corff newydd – ac yn benodol ynglŷn â phwy fydd yn casglu a rheoli trethi datganoledig.

Defnyddio un sefydliad i gasglu a rheoli

14. Pe câi'r opsiwn hwn ei ddewis, byddai'r corff corfforaethol yn dirprwyo'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig i un sefydliad. Byddem yn disgwyl i'r opsiwn hwn olygu bod gofyn talu ffi am gasglu trethi, er nad oes unrhyw syniad o'r gost ar gael adeg ysgrifennu'r asesiad hwn.
15. Byddai dewis un sefydliad i ddarparu'r gwasanaeth o un pen i'r llall yn golygu na fyddai angen cymaint o adnoddau staff ar y corff corfforaethol, a bydd natur rheoli contract swyddogaeth weithredol y corff yn dylanwadu ar strwythur yr adnoddau hynny. Gyda'r dewis hwn, rhagwelir y bydd y corff corfforaethol yn gymharol fach.
16. Mae dewisiadau i'r corff corfforaethol yma o ran ei ymwneud â'r broses casglu trethi, a lefel manylder ei ymwneud. Er enghraifft, gallai'r corff gael gwybodaeth reoli ddienw gan y sefydliad casglu am incwm treth ac ni fyddai angen felly iddo drin gwybodaeth sensitif am drethdalwyr.
17. Neu, os mai un o swyddogaethau'r corff yw cynhyrchu dadansoddiadau data helaeth i Lywodraeth Cymru, gallai cael setiau data llawn o'r gweithgarwch treth fod yn rhan o'r trefniant gyda'r sefydliad casglu. Yn ogystal â strwythur y corff, mae hyn hefyd yn codi cwestiwn ynglŷn â rhannu a storio data'n ddiogel, rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried wrth benderfynu sut y mae seilwaith TG y corff corfforaethol i gael ei ddylunio.

Defnyddio amryw o sefydliadau i gasglu a rheoli

18. Gyda'r dewis hwn, byddai'r corff corfforaethol yn dirprwyo'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig i nifer o sefydliadau.
19. Fel y nodwyd yng nghyswllt defnyddio un sefydliad, gallai'r sefydliadau a ddirprwywyd i gasglu data reoli'r broses casglu a darparu gwybodaeth reoli briodol i'r corff, eto gan osgoi'r angen i drafod gwybodaeth sensitif am drethdalwyr.
20. Neu, gallai'r corff corfforaethol ymwneud mwy â'r gwaith, gyda'r sefydliadau casglu yn darparu data manwl i'r corff. Hefyd fel y nodwyd uchod, mae hyn yn ddibynnol ar rôl a swyddogaeth y corff.

21. Yn yr un modd ag wrth ddefnyddio un sefydliad, y disgwyl yw y byddai'r corff corfforaethol yn talu ffi i'r sefydliadau casglu, er nad oes unrhyw syniad o'r gost ar gael mor gynnar â hyn yn y broses.
22. Mae'r dewis hwn yn cynnig amryw o newidynnau o ran darparu gwasanaeth casglu trethi. Felly, mae'n anodd llunio barn ynglŷn â'r adnoddau ar ffurf gweithwyr a'r gofynion TG penodol heb gael rhagor o fanylion. Fodd bynnag, mae defnyddio, ac felly gorfod arolygu, amryw o sefydliadau yn awgrymu y byddai'r corff yn ymwneud mwy â'r broses gasglu drwyddi draw ac mae'n debygol felly y byddai angen mwy o adnoddau staff arno.

Cadw'r gwaith casglu a rheoli trethi yn gyfan gwbl o fewn y corff corfforaethol

23. Yn olaf, mae dewis lle byddai'r corff corfforaethol ei hun yn rheoli'r broses o gasglu a rheoli trethi o un pen i'r llall. Byddai'n gyfrifol am gasglu a storio data trethdalwyr a byddai angen iddo reoli'r berthynas â threthdalwyr, defnyddwyr data (ee CThEM), apelau a sefydliadau gorfodi (ee Tribiwnlysoedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron) yn uniongyrchol.
24. Ni fyddai ffioedd allanol am gasglu trethi yn gysylltiedig â'r dewis hwn, ond mae cost ynghlwm wrth reoli'r gwaith casglu a rheoli trethi, apelau, gorfodaeth, rhagamcanu etc. Felly, i sicrhau bod pob swyddogaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol, byddai'r corff yn sylweddol fwy nag o dan ddewisiadau casglu a rheoli posibl eraill.
25. Wrth fod yn hyblyg ynglŷn â pha sefydliad(au) allai gasglu a rheoli trethi Cymreig ac ymgynghori ynghylch yr egwyddorion yn ymwneud â hynny yn y Papur Gwyn hwn, dylid nodi nad yw'r costau'n sefydlog a phendant ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r costau debygol o newid rhwng nawr a'r dyddiad gweithredu, sef 2018, ac felly mae'n rhy gynnar i benderfynu ar union gostau rhoi cyfundrefn casglu a rheoli trethi ar waith yng Nghymru o 2018.

Asesiadau Effaith

26. Cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith mewn perthynas â'r Bil fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
27. Drwyddi draw, nid oes disgwyl i sefydlu corff corfforaethol â phwerau casglu trethi, o ran TTiiL a WLfT, effeithio ar y rhan fwyaf o fusnesau neu bobl. Er y gallai fod rhai amrywiadau yn strwythur y trethi eu hunain, mae'r gofyniad i dalu'r trethi hynny yn bod yn awr a bydd y gofyniad yn dal i fodoli pan gaiff y trethi eu datganoli i Gymru.

28. Bydd manylion TTiiL a WLfT yn y ddeddfwriaeth ar y trethi penodol – dim ond â'r pŵer i gasglu a rheoli trethu datganoledig a sefydlu'r cyfrwng cyfreithiol i wneud hynny y mae'r Bil hwn yn ymdrin. Efallai y bydd rhai newidiadau i'r trethi, ond mae'r Gweinidog Cyllid wedi nodi mai i wella ar yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd y ceir newidiadau a, lle mae hynny'n llesol, i roi 'teimlad' Cymreig i'r trethi.

Yr effaith ar fusnesau bach

29. Cwmnïau proffesiynol fel cyfreithwyr sy'n talu'r dreth ar ran eu cleientiaid yw mwyafrif y busnesau a fydd yn gorfod ymwneud yn uniongyrchol â TTiiL. Nid yw hyn yn newid o'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond efallai y bydd TTiiL yn gweithio ychydig yn wahanol i SDLT ac efallai y bydd rhai busnesau'n teimlo bod mwy o faich gweinyddol ar eu staff o orfod delio â mwy nag un ffordd o dalu trethi. Erbyn mis Ebrill 2018 pan fydd y trethi datganoledig yn dod yn weithredol, bydd hyn eisoes yn wir gyda threthi gwahanol yn yr Alban, ond fod llai o effaith oherwydd llai o weithgarwch trawsffiniol.
30. Mae'n ansicr ar hyn o bryd a fydd rhoi WLfT ar waith yn effeithio ar weithredwyr tirlenwi. Caiff yr LfT bresennol ei chasglu â llaw – os bydd hyn yn parhau o dan gorff corfforaethol newydd, bach iawn fyddai'r effaith. Pe penderfynid digido'r gwaith o gasglu WLfT, byddai effaith ar fusnesau tirlenwi oherwydd byddent yn gorfod integreiddio newid i'w prosesau busnes. Fodd bynnag, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid tirlenwi ac maent wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod gweddill eu gweithgareddau busnes yn cael eu rheoli'n ddigidol ac y byddent yn croesawu newid i gyfundrefn ddigidol o adrodd/casglu.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

31. Nid yw Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Bil hwn effeithio ar fudiadau elusennol. Efallai y bydd effaith bosibl yn ddiweddarach pan fydd TTiiL a WLfT yn cael eu dylunio a'r ddeddfwriaeth ar y trethi penodol yn cael ei chyflwyno, ond ni ddisgwylir i newidiadau posibl i'r dull o gasglu'r ddwy dreth greu unrhyw faich ychwanegol i'r sector gwirfoddol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

32. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998), sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhannol, wedi cael ei hystyried yn yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.
33. Dywed Deddf Llywodraeth Cymru na fydd Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru os nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac na allai ddod yn ddeddf (adran 108(6) (c) Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

34. Mae'r meysydd yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n berthnasol i drethi yn cynnwys nifer o Erthyglau sy'n nodi egwyddorion sylfaenol hawliau dynol. Y prif Erthyglau sy'n berthnasol at ddibenion y Bil hwn yw:
- Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf sy'n amddiffyn yr hawl i eiddo.
 - Erthygl 6 sy'n gwarantu'r hawl i dreial teg wrth benderfynu ar rywmedigaethau sifil; mae hefyd yn rhoi hawliau pellach pan gaiff person ei gyhuddo o drosedd.
 - Erthygl 14 sy'n gwahardd gwahaniaethu.
35. Erthygl 8 sy'n mynnu parch tuag at fywyd preifat a theuluol.
36. Byddir yn ystyried a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yn cynnwys yr Erthyglau uchod) wrth i'r ddeddfwriaeth fynd ar ei hynt.
37. Wrth ystyried a oes unrhyw effaith wahaniaethol o ran Rhywedd ac Ailbennu Rhywedd, Crefydd a Chred ac Anghred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Partneriaethau Sifil a Hil, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oes tystiolaeth i ddangos effaith wahaniaethol ar unrhyw grwpiau gwarchodedig.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

38. Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi cael ei gwblhau ac mae'r Uned Hawl i Wybodaeth wedi cadarnhau nad oes Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd yn ofynnol ar y cam hwn.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn

39. Ar ôl edrych drwy'r Erthyglau, daeth y tîm Prosiect i'r casgliad nad oes unrhyw faterion sy'n effeithio ar blant yn y ddeddfwriaeth hon.

Rhestr gyfeirio prawfesur gwledig

40. Mae'r Rhestr Gyfeirio Prawfesur Gwledig yn asesu a yw'r Bil yn achosi effaith niweidiol sylweddol ar y gymuned wledig.

Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r rhestr gyfeirio prawfesur gwledig:

	Cwestiwn Polisi	Ie	Na	Sylw
1.	A fydd eich polisi'n effeithio ar argaeledd gwasanaethau cyhoeddus a phreifat eraill yn yr ardal wledig?		Na fyddai	
2.	A allech gyflawni'r polisi yr ydych yn cynnig ei roi ar waith drwy unedau gwasanaeth sy'n bodoli'n barod? Ee ysgolion, banciau a meddygfeydd	Gallem		Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar y model cyflawni gweithredol, ond mae rhai o'r opsiynau'n cynnwys defnyddio cyrff sector cyhoeddus presennol.
3.	A fydd cost ychwanegol i gyflawni'ch polisi mewn ardaloedd gwledig?		Na fydd	
4.	A fydd eich polisi'n effeithio ar anghenion teithio neu ar hwylustod a chost teithio i gymunedau gwledig?		Na fydd	
5.	A yw'r polisi'n dibynnu ar gyfleu gwybodaeth i gleientiaid?		Nac ydy	
6.	A gaiff y polisi ei gyflawni drwy'r sector preifat neu drwy bartneriaeth gyhoeddus-breifat?			Ni ellir ateb y cwestiwn hwn ar hyn o bryd gan fod penderfynu pwy sy'n casglu a rheoli trethi datganoledig yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.
7.	A yw'r polisi'n dibynnu ar seilwaith cyflawni a allai roi cymunedau gwledig o dan anfantais? Ee TGCh band eang, prif ffyrdd a chyfleustodau		Nac ydy	

8.	A fydd y polisi'n effeithio ar fusnesau gwledig, yn enwedig pobl hunangyflogedig a micro fusnesau, ac ar y Trydydd Sector yn cynnwys mentrau cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol lleol?		Na fydd	
9.	A fydd y polisi'n effeithio'n arbennig ar ddiwydiannau'r tir ac felly ar economïau gwledig a'r amgylchedd?		Na fydd	
10.	A fydd y polisi'n effeithio ar y rhai ar gyflogau isel neu mewn cyflogaeth ran-amser neu dymhorol?		Na fydd	
11.	A fydd y polisi'n targedu pobl ddifreintiedig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig?		Na fydd	
12.	A fydd y polisi'n ddibynnol ar sefydliadau lleol i'w gyflawni?		Na fydd	
13.	A yw'r polisi'n dibynnu ar adeilad neu safle datblygu newydd?		Nac ydy	
14.	A fydd y polisi'n effeithio ar ansawdd a chymeriad y dirwedd wledig naturiol ac adeiledig?		Na fydd	
15.	A fydd y polisi'n effeithio ar bobl sy'n dymuno cyrraedd cefn gwlad a'i ddefnyddio ar gyfer hamdden a mwynhad?		Na fydd	

Effaith ar y Gymraeg

41. Nid oes risg y caiff y Bil effaith negyddol ar y Gymraeg.

Asesiad Cystadleuaeth

42. Mae dau gam i'r Asesiad Cystadleuaeth. Y cyntaf yw hidlydd cyflym sy'n asesu a oes risg y bydd effaith niweidiol arwyddocaol ar gystadleuaeth.

43. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r hidlydd cystadleuaeth.

Prawf yr hidlydd cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ie neu na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy na 10% o'r farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy nag 20% o'r farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad?	Na c oes
C4: A fyddai costau'r rheoleiddio yn effeithio'n fwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill?	Na fyddent
C5: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer a maint busnesau/sefydliadau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau ymsefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad oes rhaid i gyflenwyr sy'n bodoli'n barod eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, costau nad oes rhaid i gyflenwyr sy'n bodoli'n barod eu talu?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

44. O ystyried yr atebion uchod, nid oes angen ail gam yr asesiad cystadleuaeth.

Adolygiad ôl-weithredu

45. Rhagwelir y câi'r ddeddfwriaeth hon ei hadolygu ddwy flynedd ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol neu'n gynt pe bai'r angen yn codi.